**Cynllun gwella**

**AGIC - Adolygu Ansawdd y Trefniadau Rhyddhau o Unedau Iechyd Meddwl i Oedolion sy'n Gleifion Mewnol yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr adolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| | Argymhellion | Cam Gweithredu | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau iechyd meddwl ac asesiadau iechyd corfforol llawn a chynhwysfawr bob amser yn cael eu cwblhau mewn modd amserol, yn unol â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. | **Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy'r Ffrwd Waith Cofnodion o Ansawdd Uchel.** | Rheolwr y Grŵp Gwasanaeth Clinigol, Merthyr a Chynon (Arweinydd y Ffrwd Waith Cofnodion o Ansawdd Uchel) | 30 Mehefin 2023 |
| | | Caiff y llwybr derbyn ar gyfer unedau cleifion mewnol ei adolygu er mwyn sicrhau y caiff asesiadau iechyd meddwl ac asesiadau iechyd corfforol cynhwysfawr eu cwblhau o fewn chwe awr i dderbyn cleifion fel mater o drefn. | Rheolwr y Grŵp Gwasanaeth Clinigol, Merthyr a Chynon | |
| | | Ar ôl iddo gael ei gwblhau, rhoddir gwybod i bob aelod o'r staff Nyrsio a'r staff Meddygol ym mhob gwasanaeth Iechyd Meddwl am y llwybr y cytunwyd arno gan ddefnyddio "Fframwaith Cyfathrebu a Dysgu" Grwpiau gofal fel y nodir yn **Argymhelliad 40** | Nyrsys Arwain | |
| | | Caiff cwblhau gwiriadau iechyd meddwl a gwiriadau iechyd corfforol ei ychwanegu at y Llwybr Derbyn ar gyfer pob uned cleifion mewnol. | Rheolwr y Grŵp Gwasanaeth Clinigol, Merthyr a Chynon | |
| | | Dangosir tystiolaeth o gydymffurfiaeth reolaidd drwy ychwanegu archwiliad o'r safon hon at Archwiliad wythnosol Rheolwyr Wardiau: cynhelir adolygiad cychwynnol o'r holl gleifion a dderbynnir am o leiaf un mis neu nes y sicrheir cydymffurfiaeth; a bydd pob ward yn cynnal archwiliad ar hap bob wythnos o 20% (neu o leiaf bump) o'r holl gleifion a dderbynnir i unedau oedolion sy'n gleifion mewnol gan ddefnyddio adnodd Archwilio rheolwyr wardiau. | Uwch-nyrsys cleifion mewnol | |
| | | Caiff data archwilio eu cofnodi/uwchgyfeirio drwy Fframwaith Llywodraethu Grwpiau Gofal (atodiadau 1 a 2) | Arweinydd Sicrwydd Wardiau/Nyrs Arwain Cleifion Mewnol | |
| 2 | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau, pan fydd staff yn cwblhau asesiadau risg ar gyfer cleifion, y dylai'r dull adlewyrchu'r gofynion a nodir mewn canllawiau cenedlaethol. | **Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy'r Ffrwd Gwaith Gweithlu Medrus a Llawn Cymhelliant** | Nyrs Arwain, Pen-y-bont ar Ogwr (Arweinydd y Ffrwd Gwaith Gweithlu Medrus a Llawn Cymhelliant) | 31 Gorffennaf 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Bydd pob aelod o staff y disgwylir iddo gwblhau asesiad risg glinigol yn cael hyfforddiant asesu a fformiwleiddio risg WARRN (a gydnabyddir yn genedlaethol).<br><br>Caiff yr hyfforddiant hwn ei ddarparu i bob aelod newydd o staff o fewn wyth wythnos iddo ddechrau mewn rôl cleifion mewnol neu yn ystod cyfnod sefydlu ar gyfer staff iau, gyda tharged o 85% ar gyfer pob aelod o staff y mae angen hyfforddiant arno Safon y Bwrdd Iechyd ar gyfer yr holl hyfforddiant gorfodol yw o leiaf 85% ac ystyrir ei fod yn darged synhwyrol a phriodol, gyda throsiant staff rhagweladwy a heriau disgwyliedig na ellir eu hosgoi i hyfforddiant yn cael eu hystyried.<br><br>Caiff cydymffurfiaeth ei monitro'n fisol gan Arweinydd y Cynllun Gofal a Thriniaeth a'i monitro drwy'r Grŵp Llywio Risgiau.<br><br>**Mae ymarfer galw a chapasiti cychwynnol wedi'i gwblhau, gyda hyfforddiant allanol yn cael ei ddarparu yn ystod Gwanwyn 2023. Y gyfradd gydymffurfiaeth bresennol yw 69.5 % (o gymharu â 35% ym mis Chwefror 2023) a disgwylir iddi gyrraedd 80% erbyn diwedd mis Mehefin 2023.**<br><br>Mae rhaglen o hyfforddiant WARRN parhaus yn cael ei chyflwyno gan garfan o hyfforddwyr clinigol. Datblygwyd y rhaglen hon er mwyn sicrhau y gellir bodloni'r galw a ragwelir bob blwyddyn.<br><br>Bydd unedau cleifion mewnol yn adolygu archifau a systemau papur ac electronig ac yn dileu'r holl ddogfennaeth risg heblaw'r Cynllun Fformiwleiddio a Rheoli Risg Glinigol a gymeradwywyd gan y Bwrdd Iechyd.<br><br>Dangosir tystiolaeth o gydymffurfiaeth reolaidd drwy Archwiliad wythnosol Rheolwyr Wardiau, sy'n cynnwys adolygiad o ddogfennaeth asesu risg ar gyfer sampl o gofnodion cleifion. Caiff archwiliadau Sicrwydd o Wardiau Iechyd Meddwl eu hychwanegu at system archwilio electronig y Bwrdd Iechyd. | Nyrs Arwain, Pen-y-bont ar Ogwr<br><br>Cadeirydd y Grŵp Llywio Risgiau<br><br>Cadeirydd y Grŵp Llywio Risgiau<br><br>Uwch-nyrsys cleifion mewnol<br><br>Arweinydd Sicrwydd Wardiau/Nyrs Arwain | |
| **3** | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff asesiadau galluedd meddyliol eu cynnal gan staff perthnasol, sy'n adlewyrchu'r meini prawf a nodir o fewn y ddeddfwriaeth berthnasol ac o fewn canllawiau cenedlaethol. | **Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy'r Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel.**<br><br>Mae'r tîm cleifion mewnol amlddisgyblaethol wedi datblygu templed ffurfiol ar gyfer dogfennu adolygiadau cleifion a thrafodaethau amlddisgyblaethol. Mae hyn yn ffurfioli'r angen i gofnodi, fel mater o drefn, farn y tîm amlddisgyblaethol am alluedd yr unigolyn ac unrhyw angen am Asesiad Galluedd Meddyliol llawn gan ddefnyddio'r Fframwaith a gymeradwywyd gan y Bwrdd Iechyd. Caiff hyn ei roi ar waith ym mhob rhan o'r Grŵp Gofal.<br><br>Dangosir tystiolaeth o gydymffurfiaeth reolaidd drwy Archwiliad wythnosol Rheolwyr Wardiau, sy'n cynnwys adolygiad o ddogfennaeth y tîm amlddisgyblaethol ar gyfer sampl o gofnodion cleifion.<br><br>Mae adnodd Archwilio Rheolwyr Wardiau wedi'i ddigideiddio er mwyn i ganlyniadau allu cael eu cofnodi'n gyflym mewn amser real drwy'r broses Rheoli a Thracio Archwiliadau (AMaT). Bydd rheolwyr y wardiau yn rhoi gwybod i Uwch-nyrsys am achosion o ddiffyg cydymffurfio bob wythnos; gyda chamau unioni yn cael eu cymryd ar unwaith os bydd angen ac achosion yn cael eu huwchgyfeirio at dîm rheoli'r Grŵp Gwasanaeth Clinigol os bydd angen. | Cyfarwyddwr Clinigol Rhondda a Thaf Elái (Arweinydd y Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel)<br><br>Cyfarwyddwr Clinigol Rhondda a Thaf Elái<br><br>Arweinydd Sicrwydd Wardiau/Nyrs Arwain<br><br>Rheolwyr y wardiau | 30 Mehefin 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Cyflwynir adroddiadau ffurfiol ar gydymffurfiaeth/diffyg cydymffurfio yng nghyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch, Risg a Phrofiad (ADRP) y Grŵp Gwasanaeth Clinigol (gydag unrhyw amrywiad dros amser yn cael ei nodi) a chânt eu cofnodi/uwchgyfeirio drwy Fframwaith Llywodraethu Grwpiau Gofal (Atodiadau 1 a 2)<br><br>Bydd staff yn dysgu o ganlyniadau archwiliadau pan gânt eu rhannu â thimau staff drwy'r pwyntiau Ansawdd/pwyntiau Archwilio/pwyntiau i'w dysgu ar yr agenda mewn cyfarfodydd tîm ffurfiol.<br><br>Caiff data archwilio eu cofnodi/uwchgyfeirio drwy Fframwaith Llywodraethu Grwpiau Gofal (Atodiadau 1 a 2) | Uwch-nyrsys cleifion mewnol<br><br>Arweinwyr Tîm<br><br>Nyrsys Arwain | |
| **4** | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff asesiadau gofalwyr eu cynnig fel mater o drefn a lle bo'u hangen, ac y cânt eu cynnal ar gyfer unigolion perthnasol, yn unol â Chod Ymarfer Deddf Iechyd Meddwl 1983. | **Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy'r Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel.**<br><br>Caiff llwybrau derbyn ar gyfer unedau cleifion mewnol eu hadolygu er mwyn sicrhau y caiff asesiadau gofalwyr eu cynnig fel mater o drefn lle y bo angen.<br><br>Caiff asesiadau gofalwyr eu cynnig ar adeg derbyn cleifion a'u cofnodi ar waith papur derbyn. Caiff y broses ei rhannu â phob aelod o staff drwy'r Fframwaith Cyfathrebu a Dysgu (Argymhelliad 40). Rhoddir adborth ar yr archwiliad o'r broses i dimau a bydd unrhyw gamau unioni yn atgyfnerthu cydymffurfiaeth<br><br>Mae'r tîm cleifion mewnol amlddisgyblaethol wedi datblygu templed ffurfiol ar gyfer dogfennu adolygiadau cleifion a thrafodaethau amlddisgyblaethol. Mae hyn yn ffurfioli'r angen i gofnodi ymgynghoriadau â theulu a rhwydwaith gofal y claf fel mater o drefn.<br><br>Caiff tystiolaeth o drafodaethau â gofalwyr eu cofnodi yn y nodiadau clinigol, gan ddilyn fformat y templed. Dangosir tystiolaeth o gydymffurfiaeth reolaidd drwy Archwiliad wythnosol Rheolwyr Wardiau, sy'n cynnwys adolygiad o ddogfennaeth y tîm amlddisgyblaethol ar gyfer sampl o gofnodion cleifion.<br><br>Mae adnodd Archwilio Rheolwyr Wardiau wedi'i ddigideiddio er mwyn i ganlyniadau allu cael eu cofnodi'n gyflym mewn amser real drwy'r broses Rheoli a Thracio Archwiliadau (AMaT). Bydd rheolwyr y wardiau yn rhoi gwybod i Uwch-nyrsys am achosion o ddiffyg cydymffurfio bob wythnos; gyda chamau unioni yn cael eu cymryd ar unwaith os bydd angen ac achosion yn cael eu huwchgyfeirio at dîm rheoli'r Grŵp Gwasanaeth Clinigol os bydd angen.<br><br>Cyflwynir adroddiadau ffurfiol ar gydymffurfiaeth/diffyg cydymffurfio yng nghyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch, Risg a Phrofiad (ADRP) y Grŵp Gwasanaeth Clinigol (gydag unrhyw amrywiad dros amser yn cael ei nodi) a chânt eu cofnodi/uwchgyfeirio drwy Fframwaith Llywodraethu Grwpiau Gofal (Atodiadau 1 a 2) | Cyfarwyddwr Clinigol Rhondda a Thaf Elái (Arweinydd y Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel)<br><br>Cyfarwyddwr Clinigol Rhondda a Thaf Elái<br><br>Nyrsys Arwain<br><br>Cyfarwyddwr Clinigol Rhondda a Thaf Elái<br><br>Rheolwyr y wardiau<br><br>Rheolwyr y wardiau/Uwch-nyrsys cleifion mewnol<br><br>Uwch-nyrsys cleifion mewnol | 30 Mehefin 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Bydd staff yn dysgu o ganlyniadau archwiliadau pan gânt eu rhannu â thimau staff drwy'r pwyntiau Ansawdd/pwyntiau Archwilio/pwyntiau i'w dysgu ar yr agenda mewn cyfarfodydd tîm ffurfiol.<br><br>Caiff data archwilio eu cofnodi/uwchgyfeirio drwy Fframwaith Llywodraethu Grwpiau Gofal (Atodiadau 1 a 2)<br><br>Caiff gwybodaeth archwilio ei rhannu hefyd â phob aelod o staff drwy fyrddau hyfforddiant Wardiau, sesiynau briffio dyddiol ar ddiogelwch ac ati<br><br>Bydd gan bob ardal glinigol (cleifion mewnol a chymunedol) fwrdd hyfforddiant/man gwybodaeth dynodedig ar gyfer rhannu'r hyn a ddysgwyd/archwiliadau lleol/adnoddau addysgol, gyda gwybodaeth benodol (taflenni/posteri) am hawliau'r gofalwr o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | Arweinwyr Tîm<br><br>Nyrsys Arwain<br><br>Arweinwyr Tîm<br><br>Rheolwr y Grŵp Gwasanaeth Clinigol, Rhondda a Thaf Elái (Arweinydd y Ffrwd Waith Amgylchedd Diogel a Therapiwtig) | |
| **5** | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynlluniau gofal a thriniaeth cleifion yn gwneud y canlynol:<br>a) Adlewyrchu'r gofynion a nodir ym Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010;<br>b) Cael eu llofnodi a'u dyddio fel mater o drefn ar ôl eu hadolygu neu eu diweddaru, er mwyn gallu adnabod aelodau perthnasol o'r staff | **Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy'r Ffrwd Waith Cofnodion o Ansawdd Uchel.**<br><br>Mae unedau cleifion mewnol wedi adolygu archifau a systemau papur ac electronig ac wedi dileu'r holl ddogfennaeth sy'n ymwneud â chynllunio gofal heblaw Cynllun Rheoli Cleifion Mewnol a Chynllun Gofal a Thriniaeth y Bwrdd Iechyd.<br><br>Caiff y safonau sy'n ymwneud â llofnodi Cynlluniau Gofal a Thriniaeth sydd wedi'u hadolygu a'u cwblhau, a amlinellir ym Mholisi'r Bwrdd Iechyd ar Gynlluniau Gofal a Thriniaeth, eu rhannu â phob aelod priodol o staff drwy fyrddau hyfforddiant wardiau a sesiynau briffio dyddiol ar ddiogelwch.<br><br>Mae'r adnodd archwilio Cynlluniau Gofal a Thriniaeth wedi cael ei adolygu a'i ddigideiddio a'i ychwanegu at y broses Rheoli a Thracio Archwiliadau (AMaT).Mae rhaglen archwilio ddeufisol yn mynd rhagddi fel cynllun peilot a bydd yn cael ei chyflwyno o fis Gorffennaf 2023 ymlaen.<br><br>Dangosir tystiolaeth o gydymffurfiaeth reolaidd drwy ychwanegu archwiliad o'r safon hon at Archwiliad wythnosol Rheolwyr Wardiau: cynhelir adolygiad cychwynnol o'r holl gleifion a dderbynnir am o leiaf un mis neu nes y sicrheir cydymffurfiaeth; a sampl wythnosol o'r cleifion a dderbynnir yn y dyfodol.<br><br>Bydd effeithiolrwydd y broses weithredu yn amlwg yng nghanlyniadau archwiliadau ac mewn cydymffurfiaeth â DPAau adroddadwy cenedlaethol. Caiff y rhain eu monitro drwy'r cyfarfod Perfformiad Integredig misol a gadeirir gan Gyfarwyddwr Gwasanaeth y Grŵp Gofal ac a lywir gan y "Cerdyn Sgorio Perfformiad" a lunnir bob mis gan y tîm Perfformiad Iechyd Meddwl. | Rheolwr y Grŵp Gwasanaeth Clinigol, Merthyr a Chynon (Arweinydd y Ffrwd Waith Cofnodion o Ansawdd Uchel<br><br>Uwch-nyrsys cleifion mewnol<br><br>Arweinydd y Cynllun Gofal a Thriniaeth<br><br>Arweinydd y Cynllun Gofal a Thriniaeth<br><br>Arweinydd Sicrwydd Wardiau/Nyrs arwain<br><br>Rheolwyr Grwpiau Gwasanaeth Clinigol | 31 Gorffennaf 2023 |
| **6** | Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r strwythur a'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer rowndiau wardiau, er mwyn sicrhau bod digon o amser ar gael i drafod pob claf yn ddigonol. | **Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy'r Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel.** | Cyfarwyddwr Clinigol Rhondda a Thaf Elái (Arweinydd y Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel) | 31 Awst 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Cynhelir adolygiad o'r trefniadau ar gyfer rowndiau wardiau ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd. Bydd yn cynnwys:<br>• Ymgynghori â chleifion a gofalwyr<br>• Ymgynghori â'r tîm amlddisgyblaethol<br>• Meincnodi gyda gwasanaethau iechyd meddwl eraill<br><br>Caiff safonau ar gyfer trefniadau ar gyfer rowndiau wardiau eu datblygu, eu rhannu a'u rhoi ar waith ym mhob rhan o'r Grŵp Gofal. Caiff y trefniadau hyn eu rhannu â phob aelod o staff drwy'r Fframwaith Cyfathrebu a Dysgu (Argymhelliad 40). Rhoddir adborth ar yr archwiliad o'r broses i dimau a bydd unrhyw gamau unioni yn atgyfnerthu cydymffurfiaeth<br><br>Caiff adnodd archwilio ar gyfer monitro'r safonau hyn ei ddatblygu a'i gynnwys fel rhan o system archwilio electronig y Bwrdd Iechyd.<br><br>Caiff y trefniadau ar gyfer rowndiau wardiau eu harchwilio bob wythnos. Cyflwynir adroddiadau ffurfiol ar gydymffuriaeth/diffyg cydymffurfio yng nghyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch, Risg a Phrofiad (ADRP) y Grŵp Gwasanaeth Clinigol (gydag unrhyw amrywiad dros amser yn cael ei nodi) a chânt eu cofnodi/uwchgyfeirio drwy Fframwaith Llywodraethu Grwpiau Gofal (Atodiadau 1 a 2)<br><br>Bydd staff yn dysgu o ganlyniadau archwiliadau pan gânt eu rhannu â thimau staff drwy'r pwyntiau Ansawdd/pwyntiau Archwilio/pwyntiau i'w dysgu ar yr agenda mewn cyfarfodydd tîm ffurfiol.<br><br>Caiff data archwilio eu cofnodi/uwchgyfeirio drwy Fframwaith Llywodraethu Grwpiau Gofal (Atodiadau 1 a 2) | Cyfarwyddwr Clinigol Rhondda a Thaf Elái<br><br>Nyrsys Arwain<br><br>Arweinydd Sicrwydd Wardiau<br><br>Rheolwyr y wardiau<br><br>Rheolwyr y wardiau<br><br>Nyrsys Arwain | |
| **7** | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau ar waith i allu cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn brydlon rhwng timau cleifion mewnol a thimau cymunedol yn ystod y broses ar gyfer rhyddhau cleifion. | Mae'r bwrdd iechyd yn mynd i'r afael â'r pryder hwn, yn y cyfamser, fel rhan o'r cynllun gweithredu sicrwydd ar unwaith.<br>*1.2 Ystyried sut y gellir gwella'r trefniadau cyfathrebu hanfodol rhwng timau gofal eilaidd a thimau gofal cymunedol neu ofal sylfaenol ar unwaith.*<br><br>Bydd y **Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel** yn datblygu prosesau cyfathrebu am ryddhau safonedig ym mhob rhan o'r Grŵp Gofal.<br><br>Gan gydnabod y rhaglen waith sylweddol sydd ei hangen ym mhob rhan o Fwrdd Iechyd CTM er mwyn ei ddychwelyd i sefyllfa lle mae'n darparu Iechyd Meddwl o ansawdd cyson uchel, mae Rhaglen Gwella Ansawdd wedi'i rhoi ar waith er mwyn sicrhau ymgysylltiad gwasanaeth llawn a dull gweithredu cyson ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd.<br><br>Arweinir y Rhaglen Wella ar lefel Grŵp Gofal gan y Cyfarwyddwr Nyrsio, gyda chwe ffrwd waith wahanol yn yr is-raglen "Gofal Cleifion Mewnol o Ansawdd Uchel". Arweinir pob un ar lefel Uwch (Nyrs Arwain neu unigolyn cyfatebol), gyda'r nod cyffredinol o sicrhau y caiff pob cam gweithredu, newid a gwelliant eu rhoi ar waith yn gyson ym mhob rhan o Fwrdd Iechyd CTM. | Nyrs Arwain Rhondda a Thaf Elái<br><br>Cyfarwyddwr Clinigol Rhondda a Thaf Elái (Arweinydd y Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel) | **Wedi'i gwblhau:**<br><br>*Gweler ffolder tystiolaeth 7 am yr argymhellia d hwn*<br><br>31 Awst 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Caiff y dull gweithredu cyson hwn ei atgyfnerthu ymhellach gan raglen ad-drefnu'r Grŵp Gofal Iechyd Meddwl sydd ar fin cael ei rhoi ar waith er mwyn darparu strwythurau Uwch-arweinwyr a Llywodraethu sy'n gyfrifol am ddarparu'r holl ofal i gleifion mewnol ym mhob rhan o Fwrdd Iechyd CTM.<br><br>Cyflwynir adroddiadau ffurfiol ar gydymffuriaeth/diffyg cydymffurfio yng nghyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch, Risg a Phrofiad (ADRP) y Grŵp Gwasanaeth Clinigol (gydag unrhyw amrywiad dros amser yn cael ei nodi) a chânt eu cofnodi/uwchgyfeirio drwy Fframwaith Llywodraethu Grwpiau Gofal (Atodiadau 1 a 2)<br><br>Bydd staff yn dysgu o ganlyniadau archwiliadau pan gânt eu rhannu â thimau staff drwy'r pwyntiau Ansawdd/pwyntiau Archwilio/pwyntiau i'w dysgu ar yr agenda mewn cyfarfodydd tîm ffurfiol.<br><br>Caiff data archwilio eu cofnodi/uwchgyfeirio drwy Fframwaith Llywodraethu Grwpiau Gofal (Atodiadau 1 a 2) | Uwch-nyrsys cleifion mewnol<br><br>Arweinwyr tîm<br><br>Nyrsys arwain | |
| **8** | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod perthnasol o'r staff yn cwblhau hyfforddiant priodol er mwyn gallu cyfathrebu a rhannu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r broses ar gyfer rhyddhau cleifion mewn modd amserol ac effeithiol. | Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy'r Ffrwd Gwaith Gweithlu Medrus a Llawn Cymhelliant.<br><br>Mae adolygiad o'r ffordd y mae'r Cofnod Staff Electronig yn gweithredu ac yn cofnodi hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant sy'n ymwneud yn benodol ag iechyd meddwl wedi datblygu taenlen gyffredinol er mwyn cofnodi cydymffurfiaeth mewn ffordd gywir a chyson. Fe'i cwblhawyd ym mis Mawrth 2023.<br><br>Ers hynny, mae'r grŵp gofal wedi cyflwyno cofnod hyfforddiant lleol a fydd yn ei gwneud yn bosibl i'r amrywiaeth o hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant sy'n ymwneud yn benodol ag iechyd meddwl gael ei gofnodi'n gywir<br><br>• Hyfforddiant rheoli risg WARNN; Mae ymarfer galw a chapasiti cychwynnol wedi'i gwblhau, gyda hyfforddiant allanol yn cael ei ddarparu yn ystod Gwanwyn 2023. Y gyfradd gydymffurfiaeth bresennol yw 63.3 % (o gymharu â 49 % ym mis Ebrill 2023) a disgwylir iddi gyrraedd 87% erbyn diwedd mis Hydref 2023.<br>• Atal a Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol; Mae ymarfer galw a chapasiti cychwynnol wedi'i gwblhau, gyda hyfforddiant allanol yn cael ei ddarparu yn ystod Gwanwyn 2023. Y gyfradd gydymffurfiaeth bresennol yw 69.5 % (o gymharu â 35% ym mis Chwefror 2023) a disgwylir iddi gyrraedd 80% erbyn diwedd mis Mehefin 2023.<br>• Cynllunio Gofal a Thriniaeth<br>• Llywodraethu Gwybodaeth<br><br>Bydd y Grŵp Gofal yn cyflawni ac yn cynnal cyfradd gydymffurfiaeth â hyfforddiant o 85% yn y meysydd hyn o hyfforddiant sgiliau craidd. Safon y Bwrdd Iechyd ar gyfer yr holl hyfforddiant gorfodol yw o leiaf | Nyrs Arwain, Pen-y-bont ar Ogwr (Arweinydd y Ffrwd Gwaith Gweithlu Medrus a Llawn Cymhelliant)<br><br>Uwch-nyrsys<br><br>Arweinydd y Cynllun Gofal a Thriniaeth | 31 Gorffennaf 2023<br><br>31 Awst 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 85% ac ystyrir ei fod yn darged synhwyrol a phriodol, gyda throsiant staff rhagweladwy a heriau disgwyliedig na ellir eu hosgoi i hyfforddiant yn cael eu hystyried. Mae rhaglen barhaus o hyfforddiant WARRN a hyfforddiant ar gynlluniau gofal a thriniaeth yn cael ei chyflwyno gan garfan o hyfforddwyr clinigol. Datblygwyd y rhaglen hon er mwyn sicrhau y gellir bodloni'r galw a ragwelir bob blwyddyn.<br><br>Caiff cydymffurfiaeth ar gyfer hyfforddiant WARNN a hyfforddiant ar gynlluniau gofal a thriniaeth ei chofnodi'n fisol a'i monitro drwy'r Grŵp Llywio Risgiau.<br><br>Caiff hyn ei fonitro drwy gyfarfodydd perfformiad y Grŵp Gwasanaeth Clinigol.<br>Bydd hyn hefyd yn ei gwneud yn bosibl i gydymffurfiaeth â hyfforddiant gael ei chofnodi drwy gyfarfod Perfformiad Integredig misol a gadeirir gan Gyfarwyddwr Gwasanaeth y Grŵp Gofal.<br><br>Mae'r Grŵp Gofal yn datblygu Tîm Gwella Gwasanaeth a bydd arweinydd gwasanaeth y tîm hwnnw yn casglu gwybodaeth o'r rhaglen Archwilio ehangach, y broses anghenion heb eu diwallu, dysgu ehangach ac adborth staff drwy Adolygiad Arfarnu a Datblygu Perfformiad er mwyn datblygu dadansoddiad o anghenion hyfforddiant.<br><br>Caiff hyfforddiant pwrpasol ychwanegol ei ddatblygu mewn ymateb i'r dadansoddiad o anghenion hyfforddiant a chwblhau gwaith y Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel. | Cadeirydd, Y Grŵp Llywio Risgiau<br><br>Rheolwyr Grwpiau Gwasanaeth Clinigol<br><br>Arweinydd y Tîm Gwella Gwasanaeth/Nyrs Arwain<br><br>Cyfarwyddwr Clinigol Rhondda a Thaf Elái (Arweinydd y Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel) | |
| **9** | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cofnodion eu cwblhau ar gyfer cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol mewn perthynas â chleifion mewnol, a hynny er mwyn sicrhau bod cofnod cywir o bresenoldeb, y pwyntiau allweddol a drafodwyd a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt ar gael i bob aelod o'r staff. | Ymdriniwyd â'r pryder hwn, yn y cyfamser, fel rhan o'r cynllun gweithredu sicrwydd ar unwaith:<br><br>*4.4 Sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer cadw cofnodion cynhwysfawr ar ôl cyfarfodydd ffurfiol y tîm amlddisgyblaethol, cyfarfodydd cynllunio trefniadau rhyddhau neu gyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gofal cleifion, a sicrhau y cânt eu rhannu a'u hadolygu gan y staff perthnasol.*<br><br>Fel rhan o'r adolygiad rowndiau wardiau ac amlddisgyblaethol (argymhelliad 6) bydd y **Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel** yn datblygu dulliau safonedig o gofnodi cyfarfodydd amlddisgyblaethol ym mhob rhan o'r Grŵp Gofal.<br><br>Gan gydnabod y rhaglen waith sylweddol sydd ei hangen ym mhob rhan o Fwrdd Iechyd CTM er mwyn ei ddychwelyd i sefyllfa lle mae'n darparu Iechyd Meddwl o ansawdd cyson uchel, mae Rhaglen Gwella Ansawdd wedi'i rhoi ar waith er mwyn sicrhau ymgysylltiad gwasanaeth llawn a dull gweithredu cyson ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd.<br><br>Arweinir y Rhaglen Wella ar lefel Grŵp Gofal gan y Cyfarwyddwr Nyrsio, gyda chwe ffrwd waith wahanol yn yr is-raglen “Gofal Cleifion Mewnol o Ansawdd Uchel”. Arweinir pob un ar lefel Uwch (Nyrs Arwain neu unigolyn cyfatebol), gyda'r nod cyffredinol o sicrhau y caiff pob cam gweithredu, newid a gwelliant eu rhoi ar waith yn gyson ym mhob rhan o Fwrdd Iechyd CTM. | Cyfarwyddwr Clinigol Rhondda a Thaf Elái (Arweinydd y Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel)<br><br>Cyfarwyddwr Clinigol Rhondda a Thaf Elái | **Wedi'i gwblhau:**<br><br>*Gweler ffolder tystiolaeth 9 am yr argymhelliad hwn*<br><br>31 Awst 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Caiff y dull gweithredu cyson hwn ei atgyfnerthu ymhellach gan raglen ad-drefnu'r Grŵp Gofal Iechyd Meddwl sydd ar fin cael ei rhoi ar waith er mwyn darparu strwythurau Uwch-arweinwyr a Llywodraethu sy'n gyfrifol am ddarparu'r holl ofal i gleifion mewnol ym mhob rhan o Fwrdd Iechyd CTM.<br><br>Mae'r Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel wedi cytuno ar safonau ar gyfer fformat cynnwys cyfarfodydd sy'n ymwneud â rowndiau wardiau a chyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol er mwyn cofnodi presenoldeb, pwyntiau trafod allweddol a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt; templed y cytunwyd arno ar gyfer cofnodi hyn yn nodiadau'r cleifion; a threfniadau storio a mynediad ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol cysylltiedig ym mhob rhan o Fwrdd Iechyd CTM.<br><br>Fel mesur lliniaru ar gyfer y system cofnodion lluosog sydd ar waith o hyd ym mhob rhan o wasanaeth Iechyd Meddwl Bwrdd Iechyd CTM, mae'r Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel wedi datblygu matrics ar gyfer mynediad timau clinigol/staff ("pwy sy'n cael mynediad i ba system at ba ddiben") ar gyfer pob system ym mhob rhan o'r gwasanaeth iechyd meddwl. Mae'r matrics hwn yn dweud wrth bob aelod o'r staff sut y gallant weld cynlluniau risg glinigol a chynlluniau rhyddhau cleifion, mae gwybodaeth yn ystod oriau gwaith a'r tu allan i oriau yn disgrifio mesurau lliniaru a phrosesau uwchgyfeirio. (Atodiad 3)<br><br>Caiff adnodd archwilio ar gyfer monitro'r safonau hyn ei ddatblygu a'i gynnwys fel rhan o system archwilio electronig y Bwrdd Iechyd.<br><br>Cyflwynir adroddiadau ffurfiol ar gydymffuriaeth/diffyg cydymffurfio yng nghyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch, Risg a Phrofiad (ADRP) y Grŵp Gwasanaeth Clinigol (gydag unrhyw amrywiad dros amser yn cael ei nodi) a chânt eu cofnodi/uwchgyfeirio drwy Fframwaith Llywodraethu Grwpiau Gofal (Atodiadau 1 a 2)<br><br>Bydd staff yn dysgu o ganlyniadau archwiliadau pan gânt eu rhannu â thimau staff drwy'r pwyntiau Ansawdd/pwyntiau Archwilio/pwyntiau i'w dysgu ar yr agenda mewn cyfarfodydd tîm ffurfiol.<br><br>Caiff data archwilio eu cofnodi/uwchgyfeirio drwy Fframwaith Llywodraethu Grwpiau Gofal (Atodiadau 1 a 2) | Arweinydd Sicrwydd Wardiau<br><br>Uwch-nyrs cleifion mewnol<br><br>Arweinwyr Tîm<br><br>Nyrsys Arwain | |
| **10** | Rhaid i'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd a'r canlyniadau er mwyn ymdrin â'r materion cymorth gweinyddol yn uned iechyd meddwl YTC. | Ers mis Hydref 2022, ni roddwyd gwybod am unrhyw bryderon ynghylch cymorth gweinyddol yn uned iechyd meddwl YTC. Erbyn hynny, roedd un aelod o staff o'r tîm gweinyddol wedi dychwelyd ar ôl bod yn absennol o'r gwaith am gyfnod hir oherwydd salwch a chafodd unigolyn ei benodi i lenwi swydd wag ysgrifennydd meddygol ar gyfer tîm meddygol ward 14.<br><br>Mae timau arwain Grŵp Gwasanaeth Clinigol Pen-y-bont ar Ogwr (a phob Grŵp Gwasanaeth Clinigol arall) yn parhau i adolygu materion sy'n ymwneud â chymorth gweinyddol ym mhob rhan o'r gwasanaeth drwy uwchgyfeirio unrhyw ddiffygion sy'n ymwneud â staffio, salwch neu swyddi gwag neu alw/capasiti yng nghyfarfodydd perfformiad ac ADRP y Grŵp Gwasanaeth Clinigol | Rheolwr y Grŵp Gwasanaeth Clinigol, Pen-y-bont ar Ogwr | **Wedi'i gwblhau:**<br><br>*Problemau o ran recriwtio ac absenoldeb wedi'u datrys erbyn mis Hydref 2022* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae'r Grŵp Gwasanaeth Clinigol yn rhoi gwybod am broblemau sy'n ymwneud â'r gweithlu megis swyddi gwag a salwch yn y Cyfarfod Perfformiad Integredig misol a gadeirir gn Gyfarwyddwr y Grŵp Gofal | | |
| **11** | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y gall cleifion a, lle y bo'n briodol, eu teulu, eu gofalwyr a/neu eu heiriolwr gyflwyno eu safbwyntiau er mwyn llywio'r broses o gynllunio gofal i gleifion mewnol a chynllunio trefniadau rhyddhau. Dylid cofnodi'r safbwyntiau hyn ac unrhyw gamau gweithredu dilynol yn nodiadau'r cleifion. | Ymdriniwyd â'r pryder hwn, yn y cyfamser, fel rhan o'r cynllun gweithredu sicrwydd ar unwaith:<br><br>*3.1.1 Sicrhau bod teulu/gofalwyr neu eiriolwr y claf (lle y bo'n briodol) yn cael cyfle priodol i gyfrannu at drafodaethau am ryddhau'r claf a chynlluniau rhyddhau dilynol. Dylid cofnodi eu cyfraniad yn glir yng nghofnodion y claf.*<br><br>Fel rhan o'r adolygiad rowndiau wardiau ac amlddisgyblaethol (argymhelliad 6) bydd y **Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel** yn datblygu dulliau gweithredu safonedig ar gyfer sicrhau bod barn aelodau o'r teulu, gofalwyr a/neu eiriolwyr yn cael ei dogfennu ym mhob rhan o'r Grŵp Gofal.<br><br>Gan gydnabod y rhaglen waith sylweddol sydd ei hangen ym mhob rhan o Fwrdd Iechyd CTM er mwyn ei ddychwelyd i sefyllfa lle mae'n darparu Iechyd Meddwl o ansawdd cyson uchel, mae Rhaglen Gwella Ansawdd wedi'i rhoi ar waith er mwyn sicrhau ymgysylltiad gwasanaeth llawn a dull gweithredu cyson ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd.<br><br>Arweinir y Rhaglen Wella ar lefel Grŵp Gofal gan y Cyfarwyddwr Nyrsio, gyda chwe ffrwd waith wahanol yn yr is-raglen "Gofal Cleifion Mewnol o Ansawdd Uchel". Arweinir pob un ar lefel Uwch (Nyrs Arwain neu unigolyn cyfatebol), gyda'r nod cyffredinol o sicrhau y caiff pob cam gweithredu, newid a gwelliant eu rhoi ar waith yn gyson ym mhob rhan o Fwrdd Iechyd CTM.<br><br>Caiff y dull gweithredu cyson hwn ei atgyfnerthu ymhellach gan raglen ad-drefnu'r Grŵp Gofal Iechyd Meddwl sydd ar fin cael ei rhoi ar waith er mwyn darparu strwythurau Uwch-arweinwyr a Llywodraethu sy'n gyfrifol am ddarparu'r holl ofal i gleifion mewnol ym mhob rhan o Fwrdd Iechyd CTM.<br><br>Bydd y Bwrdd Iechyd yn cynnal archwiliad ar hap bob wythnos o 20% (neu o leiaf bump) o'r holl gleifion a dderbynnir i unedau oedolion sy'n gleifion mewnol gan ddefnyddio adnodd Archwilio rheolwyr wardiau<br><br>Caiff adnodd archwilio ar gyfer monitro'r safonau hyn ei ddatblygu a'i gynnwys fel rhan o system archwilio electronig y Bwrdd Iechyd.<br><br>Cyflwynir adroddiadau ffurfiol ar gydymffuriaeth/diffyg cydymffurfio yng nghyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch, Risg a Phrofiad (ADRP) y Grŵp Gwasanaeth Clinigol (gydag unrhyw amrywiad dros amser yn cael ei nodi) a chânt eu cofnodi/uwchgyfeirio drwy Fframwaith Llywodraethu Grwpiau Gofal (Atodiadau 1 a 2)<br><br>Bydd staff yn dysgu o ganlyniadau archwiliadau pan gânt eu rhannu â thimau staff drwy'r pwyntiau Ansawdd/pwyntiau Archwilio/pwyntiau i'w dysgu ar yr agenda mewn cyfarfodydd tîm ffurfiol. | Nyrs Arwain Rhondda a Thaf Elái<br><br>Cyfarwyddwr Clinigol Rhondda a Thaf Elái (Arweinydd y Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel)<br><br>Rheolwyr y wardiau<br><br>Arweinydd Sicrwydd Wardiau<br><br>Uwch-nyrsys<br><br>Arweinwyr Tîm | **Wedi'i gwblhau:**<br><br>*Gweler ffolder tystiolaeth 11 am yr argymhelliad hwn*<br><br>31 Awst 2023<br><br>31 Awst 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Caiff data archwilio eu cofnodi/uwchgyfeirio drwy Fframwaith Llywodraethu Grwpiau Gofal (Atodiadau 1 a 2)<br><br>Mae barn pobl â phrofiad bywyd yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl yn ddiogel ac yn effeithiol. Bydd y **Grŵp Profiad Bywyd** yn datblygu fframwaith profiad bywyd er mwyn i bobl allu cyfrannu'n ystyrlon at y gwaith o gynllunio/darparu gofal a gwasanaethau. | Nyrsys Arwain<br><br>Pennaeth Nyrsio CAMHS, (Arweinydd Profiad Bywyd) | |
| **12** | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cynlluniau argyfwng neu gynlluniau wrth gefn a dangosyddion atglafychu eu datblygu a'u dogfennu fel mater o drefn fel rhan o'r broses ar gyfer cynllunio trefniadau rhyddhau. Dylid trafod y wybodaeth hon, cytuno arni a'i rhannu â'r timau perthnasol, y claf a, lle y bo'n briodol, ei deulu neu ofalwr, cyn rhyddhau'r claf neu pan gaiff ei ryddhau. | Ymdriniwyd â'r elfen hon o argymhelliad 12 fel rhan o'r cynllun gweithredu sicrwydd ar unwaith:<br><br>*4.3.1 Sicrhau y caiff dangosyddion atglafychu cleifion eu hystyried yn briodol ac y cytunir arnynt ar gyfer pob claf lle y bo'n briodol, ac y cânt eu cofnodi'n glir a'u rhannu'n brydlon ag aelodau allweddol o staff a'r claf neu berthynas/gofalwr, fel rhan o'r broses o gynllunio trefniadau rhyddhau.*<br><br>Gan weithio ochr yn ochr â'r Grŵp Llywio Risgiau, bydd y **Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel** yn cael ei llywio gan ganlyniad y cynlluniau peilot cenedlaethol ar gyfer Cynllunio Diogelwch ym maes Iechyd Meddwl sy'n cael eu harwain gan yr Uned Gyflawni. Caiff pob cyfle i wella'r cynlluniau argyfwng a'r cynlluniau wrth gefn presennol ei ystyried ymhellach a'i roi ar waith yn ôl yr angen.<br><br>Gan gydnabod y rhaglen waith sylweddol sydd ei hangen ym mhob rhan o Fwrdd Iechyd CTM er mwyn ei ddychwelyd i sefyllfa lle mae'n darparu Iechyd Meddwl o ansawdd cyson uchel, mae Rhaglen Gwella Ansawdd wedi'i rhoi ar waith er mwyn sicrhau ymgysylltiad gwasanaeth llawn a dull gweithredu cyson ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd.<br><br>Arweinir y Rhaglen Wella ar lefel Grŵp Gofal gan y Cyfarwyddwr Nyrsio, gyda chwe ffrwd waith wahanol yn yr is-raglen "Gofal Cleifion Mewnol o Ansawdd Uchel". Arweinir pob un ar lefel Uwch (Nyrs Arwain neu unigolyn cyfatebol), gyda'r nod cyffredinol o sicrhau y caiff pob cam gweithredu, newid a gwelliant eu rhoi ar waith yn gyson ym mhob rhan o Fwrdd Iechyd CTM.<br><br>Caiff y dull gweithredu cyson hwn ei atgyfnerthu ymhellach gan raglen ad-drefnu'r Grŵp Gofal Iechyd Meddwl sydd ar fin cael ei rhoi ar waith er mwyn darparu strwythurau Uwch-arweinwyr a Llywodraethu sy'n gyfrifol am ddarparu'r holl ofal i gleifion mewnol ym mhob rhan o Fwrdd Iechyd CTM.<br><br>Bydd y Bwrdd Iechyd yn cynnal archwiliad ar hap bob wythnos o 20% (neu o leiaf bump) o'r holl gleifion a dderbynnir i unedau oedolion sy'n gleifion mewnol gan ddefnyddio adnodd Archwilio rheolwyr wardiau<br><br>Caiff y broses ei rhannu â phob aelod o staff drwy'r Fframwaith Cyfathrebu a Dysgu (Argymhelliad 40) . Rhoddir adborth ar yr archwiliad o'r broses i dimau a bydd unrhyw gamau unioni yn atgyfnerthu cydymffurfiaeth | Nyrs Arwain Rhondda a Thaf Elái<br><br>Cyfarwyddwr Clinigol Rhondda a Thaf Elái (Arweinydd y Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel)<br><br>Rheolwyr y wardiau<br><br>Nyrsys Arwain | **Wedi'i gwblhau:** *Gweler ffolder tystiolaeth 12*<br><br>31 Awst 2023 |
| **13** | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu diweddaru'n rheolaidd gan staff, er mwyn nodi manylion pa wybodaeth sy'n cael ei | Ymdriniwyd â'r elfen hon o argymhelliad 13 fel rhan o'r cynllun gweithredu sicrwydd ar unwaith: | Nyrs Arwain Rhondda a Thaf Elái | **Wedi'i gwblhau:** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | rhannu, pryd a gyda phwy fel rhan o'r broses ryddhau. | *4.3.2 Sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer cadw cofnodion cynhwysfawr ar ôl cyfarfodydd ffurfiol y tîm amlddisgyblaethol, cyfarfodydd cynllunio trefniadau rhyddhau neu gyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gofal cleifion, a sicrhau y cânt eu rhannu a'u hadolygu gan y staff perthnasol.*<br><br>Fel rhan o argymhelliad 7, bydd y **Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel** yn datblygu prosesau cofnodi a chyfathrebu am ryddhau safonedig safonedig ym mhob rhan o'r Grŵp Gofal.<br><br>Gan gydnabod y rhaglen waith sylweddol sydd ei hangen ym mhob rhan o Fwrdd Iechyd CTM er mwyn ei ddychwelyd i sefyllfa lle mae'n darparu Iechyd Meddwl o ansawdd cyson uchel, mae Rhaglen Gwella Ansawdd wedi'i rhoi ar waith er mwyn sicrhau ymgysylltiad gwasanaeth llawn a dull gweithredu cyson ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd.<br><br>Arweinir y Rhaglen Wella ar lefel Grŵp Gofal gan y Cyfarwyddwr Nyrsio, gyda chwe ffrwd waith wahanol yn yr is-raglen "Gofal Cleifion Mewnol o Ansawdd Uchel". Arweinir pob un ar lefel Uwch (Nyrs Arwain neu unigolyn cyfatebol), gyda'r nod cyffredinol o sicrhau y caiff pob cam gweithredu, newid a gwelliant eu rhoi ar waith yn gyson ym mhob rhan o Fwrdd Iechyd CTM.<br><br>Caiff y dull gweithredu cyson hwn ei atgyfnerthu ymhellach gan raglen ad-drefnu'r Grŵp Gofal Iechyd Meddwl sydd ar fin cael ei rhoi ar waith er mwyn darparu strwythurau Uwch-arweinwyr a Llywodraethu sy'n gyfrifol am ddarparu'r holl ofal i gleifion mewnol ym mhob rhan o Fwrdd Iechyd CTM.<br><br>Caiff adnodd Archwilio Rheolwyr Wardiau ei ddigideiddio er mwyn i ganlyniadau allu cael eu cofnodi'n gyflym mewn amser real drwy'r broses Rheoli a Thracio Archwiliadau (AMaT). Bydd rheolwyr y wardiau yn rhoi gwybod i Uwch-nyrsys am achosion o ddiffyg cydymffurfio bob wythnos; gyda chamau unioni yn cael eu cymryd ar unwaith os bydd angen ac achosion yn cael eu huwchgyfeirio at dîm rheoli'r Grŵp Gwasanaeth Clinigol os bydd angen.<br><br>Bydd y Bwrdd Iechyd yn cynnal archwiliad ar hap bob wythnos o 20% (neu o leiaf bump) o'r holl gleifion a dderbynnir i unedau oedolion sy'n gleifion mewnol gan ddefnyddio adnodd Archwilio rheolwyr wardiau<br><br>Cyflwynir adroddiadau ffurfiol ar gydymffuriaeth/diffyg cydymffurfio yng nghyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch, Risg a Phrofiad (ADRP) y Grŵp Gwasanaeth Clinigol (gydag unrhyw amrywiad dros amser yn cael ei nodi) a chânt eu cofnodi/uwchgyfeirio drwy Fframwaith Llywodraethu Grwpiau Gofal (Atodiadau 1 a 2)<br><br>Bydd staff yn dysgu o ganlyniadau archwiliadau pan gânt eu rhannu â thimau staff drwy'r pwyntiau Ansawdd/pwyntiau Archwilio/pwyntiau i'w dysgu ar yr agenda mewn cyfarfodydd tîm ffurfiol.<br><br>Caiff data archwilio eu cofnodi/uwchgyfeirio drwy Fframwaith Llywodraethu Grwpiau Gofal (Atodiadau 1 a 2) | Cyfarwyddwr Clinigol Rhondda a Thaf Elái (Arweinydd y Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel)<br><br>Arweinydd sicrwydd wardiau<br><br>Rheolwyr y wardiau<br><br>Uwch-nyrsys<br><br>Rheolwyr y wardiau<br><br>Nyrsys Arwain | Gweler ffolder tystiolaeth 13 am yr argymhelliad hwn<br><br>31 Awst 2023 |
| **14** | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau ar waith i liniaru yn erbyn y | **Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy'r Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel.** | | 30 Mehefin 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | risgiau sy'n gysylltiedig â rhyddhau cleifion yn gyflymach, gan sicrhau y caiff gwybodaeth amserol ei rhannu â'r timau cymunedol perthnasol. | Bydd y ffrwd waith yn diffinio trefniadau ar gyfer rhyddhau cleifion yn gyflymach a bydd yn datblygu gweithdrefn ar gyfer rheoli'r broses o ryddhau cleifion yn gyflymach er mwyn sicrhau<br>• Y caiff triniaeth yn y cartref ei chynnig ar ôl i'r claf gael ei ryddhau<br>• Cyfathrebu ffurfiol â'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol gan reolwr y ward<br>• Y caiff y rhai y nodir eu bod wedi'u rhyddhau'n gyflymach yn cael eu hatgyfeirio at Uwch-dîm Rheoli'r Grŵp Gwasanaeth Clinigol at ddibenion craffu a dysgu<br>• Y caiff y broses a'r penderfyniad(au) a wneir ar gyfer pob achos eu hadolygu<br><br>Bydd y grŵp gofal yn archwilio pob achos lle yr ystyrir bod y claf wedi'i ryddhau'n gyflymach gan ddefnyddio safonau y cytunwyd arnynt o fewn y weithdrefn<br><br>Cyflwynir adroddiadau ffurfiol ar gydymffurfiaeth/diffyg cydymffurfio yng nghyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch, Risg a Phrofiad (ADRP) y Grŵp Gwasanaeth Clinigol (gydag unrhyw amrywiad dros amser yn cael ei nodi) a chânt eu cofnodi/uwchgyfeirio drwy Fframwaith Llywodraethu Grwpiau Gofal (Atodiadau 1 a 2)<br><br>Caiff canlyniadau archwiliadau eu rhannu â thimau staff drwy'r pwyntiau Ansawdd/pwyntiau Archwilio/pwyntiau i'w dysgu ar yr agenda mewn cyfarfodydd tîm ffurfiol.<br><br>Caiff data archwilio eu cofnodi/uwchgyfeirio drwy Fframwaith Llywodraethu Grwpiau Gofal (Atodiadau 1 a 2)<br><br>Ni fydd y weithdrefn rhyddhau'n gyflymach yn cynnwys mesurau i gefnogi cleifion mewnol sydd wedi gadael yr ysbyty yn gynt nag a fwriadwyd am fod y broses hon yn cael ei diffinio ym Mholisi'r Bwrdd Iechyd ar gyfer **Rheoli Trefniadau Gadael o dan Adran 17 (MH 12)**, a'i **Bolisi ar gyfer cynllunio trefniadau gadael ar gyfer cleifion anffurfiol (MH44).** | Cyfarwyddwr Clinigol Rhondda a Thaf Elái (Arweinydd y Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel)<br><br>Arweinydd sicrwydd wardiau/Nyrsys Arwain<br><br>Uwch-nyrsys<br><br>Rheolwyr y wardiau<br><br>Nyrsys Arwain | |
| **15** | Rhaid i'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd neu y mae angen eu cymryd o hyd, i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig ag argaeledd gwelyau cleifion mewnol. | **Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy'r Ffrwd Waith Mynediad ac Opsiynau Amgen yn lle Derbyn i'r Ysbyty.**<br><br>Mae'n anghyffredin i bob gwely ym Mwrdd Iechyd CTM fod yn cael ei ddefnyddio, hyd yn oed ar lefel ward (atodiad 4)<br><br>Fodd bynnag, mae'r trefniadau presennol ar gyfer sicrhau bod gwelyau ychwanegol ar gael yn amrywio rhwng safleoedd ysbytai acíwt yn y Bwrdd Iechyd.<br><br>Caiff dull gweithredu safonedig ei ddatblygu a fydd yn cynnwys:<br>• Sgrymiau dyddiol y grŵp gofal<br>• Proses a rennir ar gyfer rheoli argaeledd gwelyau<br>• Canllawiau cerdyn gweithredu ar gyfer rheoli aciwtedd<br>• Trefniadau wrth gefn y tu allan i oriau<br>• Adrodd ar argaeledd gwelyau yn ddyddiol<br>• | Pennaeth Seicoleg (Arweinydd y Ffrwd Waith Mynediad ac Opsiynau Amgen yn lle Derbyn i'r Ysbyty) | 31 Gorffennaf 2023 |

<table>
<tr>
<td></td>
<td></td>
<td>
<ul><li></li></ul>
<table>
<tr><th>Mis Blwyddyn</th><th>Mai-22</th><th>Meh-22</th><th>Gorff-22</th><th>Awst-22</th><th>Medi-22</th><th>Hyd-22</th><th>Tach-22</th></tr>
<tr><td>Cyfanswm</td><td>94.35%</td><td>92.95%</td><td>96.02%</td><td>97.21%</td><td>93.13%</td><td>89.10%</td><td>87.80%</td></tr>
<tr><th>Mis Blwyddyn</th><th>Rhag-22</th><th>Ion-23</th><th>Chwef-23</th><th>Maw-23</th><th>Ebr-23</th><th>Mai-23</th><th>Cyfartaledd</th></tr>
<tr><td>Cyfanswm</td><td>79.99%</td><td>90.20%</td><td>88.75%</td><td>89.40%</td><td>89.33%</td><td>88.81%</td><td>90.58%</td></tr>
</table>
Bydd grŵp gweithredol y Ddeddf Iechyd Meddwl yn arwain y gwaith o ddatblygu Polisi Adran 140 er mwyn sicrhau bod y trefniadau yn glir pan fydd pob gwely ym Mwrdd Iechyd CTM yn cael ei ddefnyddio.
</td>
<td>Cadeirydd Grŵp gweithredol y Ddeddf Iechyd Meddwl</td>
<td></td>
</tr>
<tr>
<td>16</td>
<td>Dylai'r bwrdd iechyd ystyried buddiannau ailddechrau'r cyfarfodydd sgrym er mwyn helpu i reoli'r problemau o ran llif cleifion i mewn i'r unedau cleifion mewnol ac allan ohonynt.</td>
<td> Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy'r Ffrwd Waith Mynediad ac Opsiynau Amgen yn lle Derbyn i'r Ysbyty.
Gweler yr ymateb i argymhelliad 15 </td>
<td>Pennaeth Seicoleg (Arweinydd y Ffrwd Waith Mynediad ac Opsiynau Amgen yn lle Derbyn i'r Ysbyty)</td>
<td>31 Gorffennaf 2023</td>
</tr>
<tr>
<td>17</td>
<td>Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried y ffactorau sy'n achosi oedi wrth ryddhau cleifion ar wardiau iechyd meddwl i gleifion mewnol a'r opsiynau dilynol ar gyfer lleihau nifer y cleifion sy'n destun oedi wrth ryddhau.</td>
<td> Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy'r Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel.
Bydd y Grŵp Gofal yn cynnal adolygiad o'r galw gan gleifion mewnol a chapasiti er mwyn gwneud y canlynol
<ul>
<li>Diffinio'r amodau a ddisgrifir gan staff yn yr adolygiad</li>
<li>Deall achosion posibl o oedi wrth ryddhau cleifion</li>
<li>Nodi nyrsio/y tîm amlddisgyblaethol</li>
<li>Rhoi ymyriadau ar waith a fydd yn mynd i'r afael â rhwystrau i lif cleifion a achosir gan gleifion mewnol</li>
</ul>
Bydd canlyniad yr adolygiad o'r galw a chapasiti yn llywio gwaith y ffrwd waith Mynediad ac Opsiynau Amgen yn lle Derbyn i'r Ysbyty a'r Rhaglen Adsefydlu. </td>
<td> Cyfarwyddwr Clinigol Rhondda a Thaf Elái (Arweinydd y Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel)
Cyfarwyddwr Cynorthwyol Trawsnewid </td>
<td>31 Awst 2023</td>
</tr>
<tr>
<td>18</td>
<td>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y trefniadau ar gyfer rheoli a storio cofnodion cleifion papur a ddefnyddir yn uned iechyd meddwl YTC i gleifion mewnol, ac ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd yn gyffredinol, eu hadolygu:<br>a) er mwyn sicrhau dull gweithredu safonol a galluogi proses fwy effeithlon o gael gafael ar wybodaeth am gleifion;<br>b) er mwyn sicrhau diogelwch data a gwybodaeth glinigol am gleifion</td>
<td> Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy'r Ffrwd Waith Cofnodion o Ansawdd Uchel.
Mae rhaglen waith yn mynd rhagddi er mwyn gwneud y canlynol:
<ul>
<li>Safoni dulliau o reoli cofnodion papur os bydd eu hangen</li>
<li>Sicrhau bod mesurau lliniaru risg ar gyfer prosesau presennol mor effeithiol â phosibl</li>
<li>Cynnal ymarfer cwmpasu er mwyn dileu nodiadau papur yn raddol gan sicrhau bod y Grŵp Gofal yn gwneud y defnydd gorau posibl o systemau digidol presennol cyn i'r Cofnod Electronig Unigol gael ei roi ar waith.</li>
</ul></td>
<td>Rheolwr y Grŵp Gwasanaeth Clinigol, Merthyr a Chynon (Arweinydd y Ffrwd Waith Cofnodion o Ansawdd Uchel)</td>
<td>31 Gorffennaf 2023</td>
</tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Dysgu o'r ymarfer gwella cofnodion clinigol yn Nhŷ Llidiard gan gydnabod bod y grŵp gofal ehangach yn wynebu heriau ychwanegol o ran graddfa a chymhlethdod.<br><br>Mae'r Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel wedi cyflwyno mesurau llywodraethu er mwyn cyfyngu ar fynediad i wybodaeth unrhyw glaf a ddelir ar yriannau electronig W a T, lle mae angen awdurdodiad lefel uwch i gael mynediad<br><br>Mae timau cofnodion meddygol ar safleoedd YTC ac YBM yn gyfrifol am sicrhau cyfrinachedd a mynediad i gofnodion papur cleifion, gan dracio nodiadau pan fyddant yn cael eu defnyddio. Y tu allan o oriau gellir cael gafael ar gofnodion papur drwy'r gwasanaethau datrys argyfwng ar y ddau safle.<br><br>Mae'r Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel yn cyflwyno arferion gorau ym mhob rhan o Ben-y-bont ar Ogwr (yn unol â'r gwersi a ddysgwyd yn Rhondda a Thaf Elái) er mwyn lleihau nifer y cofnodion papur a ddelir, gan gynnal ymarfer cwmpasu er mwyn nodi pa mor effeithiol fyddai ymarfer dileu cofnodion papur cyn i System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) gael ei rhoi ar waith. (Dyddiad cwblhau 15 Gorffennaf 2023)<br><br>Fel mesur lliniaru ar gyfer y system cofnodion lluosog sydd ar waith o hyd ym mhob rhan o wasanaeth Iechyd Meddwl Bwrdd Iechyd CTM, mae'r Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel wedi datblygu matrics ar gyfer mynediad timau clinigol/staff ("pwy sy'n cael mynediad i ba system at ba ddiben") ar gyfer pob system ym mhob rhan o'r gwasanaeth iechyd meddwl. Mae'r matrics hwn yn dweud wrth bob aelod o'r staff sut y gallant weld cynlluniau risg glinigol a chynlluniau rhyddhau cleifion, mae gwybodaeth yn ystod oriau gwaith a'r tu allan i oriau yn disgrifio mesurau lliniaru a phrosesau uwchgyfeirio. (Atodiad 3) | | |
| **19** | Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC am y cynlluniau i roi system cofnodion cleifion clinigol unedig ar waith. Rhaid i hyn hefyd gynnwys ystyried ei wasanaethau i gleifion mewnol a'i wasanaethau cymunedol o ran Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd. | Mae'r Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd yn ymrwymedig i roi system cofnodion electronig unedig ar waith ar gyfer y Grŵp Gofal Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, sy'n cynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.<br><br>Mae achos busnes wedi cael ei ddatblygu a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Gweithredol.<br><br>Fodd bynnag, mae heriau yn gysylltiedig â'r system genedlaethol a ffefrir. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n agos gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru a Byrddau Iechyd eraill fel rhan o'r adolygiad o'r rhaglen strategol genedlaethol ar gyfer System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Bydd canlyniad yr adolygiad hwn yn dylanwadu ar amserlenni ar gyfer rhoi WCCIS ar waith ar gyfer y Bwrdd Iechyd.<br><br>Mae Gweithdy ar System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ar gyfer BIPCTM wedi'i drefnu ar gyfer 15 Mehefin 2023 gan arweiniad Cyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu<br><br>Rhaglen WCCIS BIPCTM i ddechrau o 25 Gorffennaf 2023 gan gadeiryddiaeth y Dirprwy Brif Swyddog Gweithrediadau a Chyfarwyddwr Gweithredol Digidol | Cyfarwyddwr Digidol | 30 Mehefin 2023*<br><br>*Noder bod yr amserlenni hyn yn cyfeirio at ganlyniad yr adolygiad cenedlaethol ac nid y broses o roi system cofnodion electronig ar waith.* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Bydd Grŵp Gweithredol WCCIS yn dechrau ym mis Gorffennaf/Awst 2023 gan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a'r Uwch-reolwr TG/Digidol<br><br>Caiff amserlenni Cynllun Gweithredu WCCIS ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu eu diweddaru a'u cyflwyno i'r Gweithdy ar System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ar 15 Mehefin 2023.<br><br>Fel mesur lliniaru ar gyfer y system cofnodion lluosog sydd ar waith o hyd ym mhob rhan o wasanaeth Iechyd Meddwl Bwrdd Iechyd CTM, mae'r Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel wedi datblygu matrics ar gyfer mynediad timau clinigol/staff ("pwy sy'n cael mynediad i ba system at ba ddiben") ar gyfer pob system ym mhob rhan o'r gwasanaeth iechyd meddwl. Mae'r matrics hwn yn dweud wrth bob aelod o'r staff sut y gallant weld cynlluniau risg glinigol a chynlluniau rhyddhau cleifion, mae gwybodaeth yn ystod oriau gwaith a'r tu allan i oriau yn disgrifio mesurau lliniaru a phrosesau uwchgyfeirio. (Atodiad 3) | | Anelir ar roi WCCIS ar waith erbyn diwedd 2024 |
| **20** | Rhaid i'r bwrdd iechyd roi camau ar waith i liniaru yn erbyn y risgiau sy'n gysylltiedig â gallu staff mewn gwahanol dimau i weld cofnodion clinigol sy'n cynnwys gwybodaeth am gleifion mewn modd amserol. | **Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy'r Ffrwd Waith Cofnodion o Ansawdd Uchel.**<br><br>Fel mesur lliniaru ar gyfer y system cofnodion lluosog sydd ar waith o hyd ym mhob rhan o wasanaeth Iechyd Meddwl Bwrdd Iechyd CTM, mae'r Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel wedi datblygu matrics ar gyfer mynediad timau clinigol/staff ("pwy sy'n cael mynediad i ba system at ba ddiben") ar gyfer pob system ym mhob rhan o'r gwasanaeth iechyd meddwl. Mae'r matrics hwn yn dweud wrth bob aelod o'r staff sut y gallant weld cynlluniau risg glinigol a chynlluniau rhyddhau cleifion, mae gwybodaeth yn ystod oriau gwaith a'r tu allan i oriau yn disgrifio mesurau lliniaru a phrosesau uwchgyfeirio. (Atodiad 3)<br><br>Yn unol â ffactorau sy'n llywio'r **ffrwd waith Mynediad ac Opsiynau Amgen yn lle Derbyn i'r Ysbyty** a'r **ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel**, mae ymarfer mapio prosesau wedi'i gynnal ac mae diagramau llif ynghylch trosglwyddo gwybodaeth cleifion rhwng y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol a'r Uned Cleifion Mewnol ar gyfer derbyn cleifion i'r ysbyty a'u rhyddhau wedi'u cwblhau a'u rhannu â phob rhan i'r Grŵp Gofal Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. | Rheolwr y Grŵp Gwasanaeth Clinigol, Merthyr a Chynon (Arweinydd y Ffrwd Waith Cofnodion o Ansawdd Uchel) | 31 Gorffennaf 2023 |
| **21** | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod llythyrau rhyddhau yn rhoi digon o wybodaeth i'r cleifion a, lle y bo'n briodol, i'r teulu neu ofalwyr, er mwyn helpu i reoli gofal y claf ar ôl ei ryddhau. Lle y bo'n berthnasol, dylai hyn gynnwys gwybodaeth am hawliau cleifion i hunangyfeirio at y gwasanaeth, yn unol â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. | Ymdriniwyd â'r elfen hon o argymhelliad 21 fel rhan o'r cynllun gweithredu sicrwydd ar unwaith:<br><br>*4.1.1 Adolygu'r templedi ar gyfer llythyrau rhyddhau, er mwyn sicrhau eu bod yn darparu digon o wybodaeth i'r cleifion ac aelodau allweddol eraill o staff er mwyn helpu'r claf ar ôl ei ryddhau ac er mwyn helpu i sicrhau ei ddiogelwch a'i lesiant*<br><br>Yn unol ag argymhelliad 6 ac argymhelliad 11, bydd y **Ffrwd Waith Diogelu'n Ddiogel** yn sicrhau bod dull safonedig o gyfathrebu â chleifion a, lle y bo'n briodol, eu teulu neu eu gofalwyr.<br><br>Gan gydnabod y rhaglen waith sylweddol sydd ei hangen ym mhob rhan o Fwrdd Iechyd CTM er mwyn ei ddychwelyd i sefyllfa lle mae'n darparu Iechyd Meddwl o ansawdd cyson uchel, mae Rhaglen Gwella Ansawdd wedi'i rhoi ar waith er mwyn sicrhau ymgysylltiad gwasanaeth llawn a dull gweithredu cyson ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd.<br><br>Arweinir y Rhaglen Wella ar lefel Grŵp Gofal gan y Cyfarwyddwr Nyrsio, gyda chwe ffrwd waith wahanol yn yr is-raglen "Gofal Cleifion Mewnol o Ansawdd Uchel". Arweinir pob un ar lefel Uwch (Nyrs Arwain neu | Nyrs Arwain Rhondda a Thaf Elái<br><br>Cyfarwyddwr Clinigol Rhondda a Thaf Elái (Arweinydd y Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel) | **Wedi'i gwblhau:**<br><br>*Gweler ffolder tystiolaeth 21 am yr argymhelliad hwn* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | unigolyn cyfatebol), gyda'r nod cyffredinol o sicrhau y caiff pob cam gweithredu, newid a gwelliant eu rhoi ar waith yn gyson ym mhob rhan o Fwrdd Iechyd CTM.<br><br>Caiff y dull gweithredu cyson hwn ei atgyfnerthu ymhellach gan raglen ad-drefnu'r Grŵp Gofal Iechyd Meddwl sydd ar fin cael ei rhoi ar waith er mwyn darparu strwythurau Uwch-arweinwyr a Llywodraethu sy'n gyfrifol am ddarparu'r holl ofal i gleifion mewnol ym mhob rhan o Fwrdd Iechyd CTM.<br><br>Yn unol â'r gwaith sydd wedi'i wneud gan y ffrwd waith Cofnodion o Ansawdd Uchel, mae unedau cleifion mewnol bellach yn defnyddio templed unffurf ar gyfer llythyrau rhyddhau electronig cofnodi, storio a dosbarthu os byddant hefyd yn unffurf. Mae'r templed hwn hefyd wedi'i addasu ar gyfer Gwasanaethau Systemau Gweithredu er mwyn sicrhau cysondeb rhwng unedau cleifion mewnol a Thimau Iechyd Meddwl Cymunedol. | | *31 Awst 2023* |
| | | Fel mesur lliniaru ar gyfer y system cofnodion lluosog sydd ar waith o hyd ym mhob rhan o wasanaeth Iechyd Meddwl Bwrdd Iechyd CTM, mae'r Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel wedi datblygu matrics ar gyfer mynediad timau clinigol/staff ("pwy sy'n cael mynediad i ba system at ba ddiben") ar gyfer pob system ym mhob rhan o'r gwasanaeth iechyd meddwl. Mae'r matrics hwn yn dweud wrth bob aelod o'r staff sut y gallant weld cynlluniau risg glinigol a chynlluniau rhyddhau cleifion, mae gwybodaeth yn ystod oriau gwaith a'r tu allan i oriau yn disgrifio mesurau lliniaru a phrosesau uwchgyfeirio. (Atodiad 3)<br><br>Bydd y Bwrdd Iechyd yn cynnal archwiliad ar hap bob wythnos o 20% (neu o leiaf bump) o'r holl gleifion a ryddheir o'r ysbyty i unedau oedolion sy'n gleifion mewnol gan ddefnyddio adnodd Archwilio rheolwyr wardiau. | Rheolwyr y wardiau | |
| | | Mae adnodd Archwilio Rheolwyr Wardiau wedi'i ddigideiddio er mwyn i ganlyniadau allu cael eu cofnodi'n gyflym mewn amser reall drwy'r broses Rheoli a Thracio Archwiliadau (AMaT). Bydd rheolwyr y wardiau yn rhoi gwybod i Uwch-nyrsys am achosion o ddiffyg cydymffurfio bob wythnos; gyda chamau unioni yn cael eu cymryd ar unwaith os bydd angen ac achosion yn cael eu huwchgyfeirio at dîm rheoli'r Grŵp Gwasanaeth Clinigol os bydd angen. | Rheolwyr y wardiau/Uwch-nyrsys cleifion mewnol | |
| | | Cyflwynir adroddiadau ffurfiol ar gydymffuriaeth/diffyg cydymffurfio yng nghyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch, Risg a Phrofiad (ADRP) y Grŵp Gwasanaeth Clinigol (gydag unrhyw amrywiad dros amser yn cael ei nodi) a chânt eu cofnodi/uwchgyfeirio drwy Fframwaith Llywodraethu Grwpiau Gofal (Atodiadau 1 a 2) | Uwch-nyrsys cleifion mewnol | |
| | | Bydd staff yn dysgu o ganlyniadau archwiliadau pan gânt eu rhannu â thimau staff drwy'r pwyntiau Ansawdd/pwyntiau Archwilio/pwyntiau i'w dysgu ar yr agenda mewn cyfarfodydd tîm ffurfiol. | Nyrsys Arwain | |
| | | Caiff data archwilio eu cofnodi/uwchgyfeirio drwy Fframwaith Llywodraethu Grwpiau Gofal (Atodiadau 1 a 2) | Arweinwyr Tîm | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **22** | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff llythyrau rhyddhau eu hanfon at gleifion, eu teulu, eu meddyg teulu a gwasanaethau perthnasol eraill o fewn 24 awr o'u dyddiad rhyddhau. Dylid dogfennu hyn hefyd yng nghofnodion y cleifion perthnasol. | **Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy'r Grŵp Polisïau'r Grŵp Gofal.**<br><br>Bydd y tîm cleifion mewnol yn diwygio'r Weithdrefn Rhyddhau o'r Ysbyty (MH40) yn unol â Chanllaw NICE [NG53] Trosglwyddo rhwng lleoliadau iechyd meddwl fel claf mewnol a lleoliadau cymunedol neu gartref gofal.<br><br>Bydd hyn yn pennu safon y caiff llythyr sy'n cynnwys manylion presgripsiwn presennol unigolyn, y rhesymau dros unrhyw newidiadau i feddyginiaethau a'u cynllun triniaeth â meddyginiaeth uniongyrchol, ei e-bostio at feddyg teulu'r unigolyn, o fewn 24 awr, gyda chopi yn cael ei roi i'r unigolyn ac, os bydd yn briodol, y tîm cymunedol a gwasanaethau arbenigol eraill.<br><br>Caiff y gweithdrefnau eu rhannu â phob aelod o staff drwy'r Fframwaith Cyfathrebu a Dysgu (Argymhelliad 40) .<br><br>Rhoddir adborth ar yr archwiliad o'r broses i dimau a bydd unrhyw gamau unioni yn atgyfnerthu cydymffurfiaeth<br><br>Dangosir tystiolaeth o gydymffurfiaeth reolaidd drwy<br>broses o archwilio pob achos o ryddhau claf o'r ysbyty o fewn 24 awr (rheolwr y ward) ac<br>adolygiadau o ddogfennau bob pythefnos (Uwch-nyrs) ac<br>archwiliad o Gynlluniau Gofal a Thriniaeth bob deufis (Arweinydd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth). | Nyrs Arwain Merthyr a Chynon (Cadeirydd y Grŵp Polisïau)<br><br>Uwch-nyrsys<br><br>Rheolwyr y wardiau/Arweinwyr tîm<br><br>Uwch-nyrsys | 31 Awst 2023 |
| **23** | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y crynodebau rhyddhau eu cwblhau a'u hanfon at feddyg teulu'r claf a gwasanaethau eraill perthnasol sy'n gysylltiedig â'r trefniadau gofal a thriniaeth ar ôl rhyddhau, o fewn wythnos i ryddhau'r claf. | **Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy'r Grŵp Sicrwydd Wardiau.**<br><br>Mae'r safon hon wedi'i nodi'n glir yn safon Gweithdrefn y Bwrdd Iechyd (MH40) a chaiff ei monitro drwy archwiliad o'r broses ar gyfer pob achos o ryddhau claf o'r ysbyty o fewn 24 awr (rheolwr y ward) ac adolygiad o ddogfennau a gynhelir bob pythefnos (Uwch-nyrs).<br>Caiff yr archwiliad hwn ei gynnwys yn adnodd archwilio electronig y Bwrdd Iechyd | Arweinydd Sicrwydd Wardiau | 30 Mehefin 2023 |
| **24** | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y cysylltir â chleifion o fewn tri diwrnod ar ôl eu rhyddhau o unedau iechyd meddwl, yn unol â chanllawiau cenedlaethol. | **Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy'r Grŵp Sicrwydd Wardiau.**<br><br>Mae'r safon hon wedi'i nodi'n glir yn safonau Gweithdrefn Rhyddhau o'r Ysbyty (MH40) y Bwrdd Iechyd.<br><br>Caiff y safon hon ei monitro drwy archwiliad o'r broses ar gyfer pob achos o ryddhau claf o'r ysbyty o fewn 24 awr (rheolwr y ward) ac adolygiad o ddogfennau bob pythefnos (Uwch-nyrs) ac archwiliad o Gynlluniau Gofal a Thriniaeth bob deufis (Uwch-nyrs Gymunedol). Caiff yr archwiliad hwn ei gynnwys yn adnodd archwilio electronig y Bwrdd Iechyd<br><br>Bydd y Ffrwd Waith **Cofnodion Clinigol o Ansawdd Uchel** yn darparu atebion ar gyfer monitro gwaith dilynol mewn perthynas â chleifion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty a wneir gan dimau cymunedol gan ddefnyddio systemau cofnodi gwahanol. | Arweinydd Sicrwydd Wardiau<br><br>Rheolwr y Grŵp Gwasanaeth Clinigol, Merthyr a Chynon (Arweinydd y Ffrwd Waith Cofnodion o Ansawdd Uchel) | 30 Mehefin 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **25** | Rhaid i'r bwrdd iechyd weithredu i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â niferoedd annigonol o staff ac anghenion staffio dros dro ar wardiau iechyd meddwl i gleifion mewnol. | **Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy'r Ffrwd Gwaith Gweithlu Medrus a Llawn Cymhelliant**<br><br>Mae'r unedau cleifion mewnol wedi datblygu prosesau uwchgyfeirio ar gyfer staffio er mwyn sicrhau bod cymorth effeithiol ar gael i'r aelodau hynny o staff sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau diogel ynghylch staff fesul sifft. Caiff y prosesau hyn eu hadolygu er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson ym mhob uned cleifion mewnol.<br><br>Mae adolygiad o nifer y nyrsys yn yr unedau cleifion mewnol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Caiff ei lywio gan ganllawiau arfer gorau presennol a'r egwyddorion sydd wedi'u datblygu gan y rhaglen staffio Nyrsys Iechyd Meddwl Cymru sy'n mynd rhagddi o hyd.<br><br>Caiff dulliau amgen o recriwtio a chadw staff eu hystyried, gan gynnwys:<br>• Digwyddiadau recriwtio<br>• Adolygiad o'r cymysgedd o sgiliau<br>• Ystyried rolau Band 4<br>• Recriwtio dramor<br>• Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd i lwybrau hyfforddiant nyrsio cofrestredig<br><br>Bydd y grŵp gofal yn monitro problemau sy'n ymwneud â staff a recriwtio a chadw staff ac effeithiolrwydd y dulliau gweithredu a nodir drwy gyfarfod Staffio Nyrsio a'r Gweithlu a gynhelir bob mis.<br><br>Mae'r Grŵp Gwasanaeth Clinigol yn rhoi gwybod am broblemau sy'n ymwneud â'r gweithlu megis swyddi gwag a salwch yn y Cyfarfod Perfformiad Integredig misol. | Nyrs Arwain, Pen-y-bont ar Ogwr (Arweinydd y Ffrwd Gwaith Gweithlu Medrus a Llawn Cymhelliant)<br><br>Uwch-nyrsys cleifion mewnol<br><br>CAMHS, Pennaeth Nyrsio<br><br>Nyrsys Arwain<br><br>Cyfarwyddwr Nyrsio<br><br>Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Grŵp Gofal | 30 Mehefin 2023 |
| **26** | Dylai'r bwrdd iechyd gynnal arolwg o gapasiti'r gweithlu cymunedol a'r galw amdano, er mwyn sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i'r timau cymunedol perthnasol er mwyn iddynt allu ymdopi â'u llwythi achosion cleifion. | **Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy Fwrdd Trawsnewid Strategol y Grŵp Gofal.**<br><br>Bydd y Bwrdd Iechyd yn cynnal adolygiad galw a chapasiti o'r timau cymunedol a bydd yn ystyried y canlynol:<br>• Llwybrau atgyfeirio<br>• Y defnydd o adnoddau lleol<br>• Trothwyon ar gyfer mynediad at dimau cymunedol<br>• Nifer ac aciwtedd llwythi achosion<br>• Cymysgedd sgiliau<br>• Llesiant y gweithlu<br><br>Bydd yr adolygiad o'r galw a chapasiti yn cynnwys ymgysylltu â staff sy'n gweithio mewn timau cymunedol yn y Bwrdd Iechyd, am fod profiad staff, ymgysylltu â staff ac adborth staff yn rhan hanfodol o ddull tosturiol o arwain adolygiadau o wasanaethau. | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strategaeth a Thrawsnewid | 31 Awst 2023 |
| **27** | Rhaid i'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am statws cyfleusterau asesu TDATC Merthyr Cynon o fewn YTS. | **Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy'r Ffrwd Waith Mynediad ac Opsiynau Amgen yn lle Derbyn i'r Ysbyty.**<br><br>Mae Lle Asesu Argyfyngau YTS bellach yn weithredol yn Adran Achosion Brys YTS. | Pennaeth Seicoleg (Arweinydd y Ffrwd Waith Mynediad ac Opsiynau Amgen yn lle Derbyn i'r Ysbyty) | Diweddariad ar 31 Mai 2023<br><br>*Noder bod yr amserlen hon ar gyfer yr ateb* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae Staff Argyfwng a Chydgysylltu yn cynnal asesiad risg o'r claf ac, yn dibynnu ar ei anghenion, bydd yn aros gydag ef yn yr ystafell drwy'r amser.<br><br>Mae pwyntiau clymu wedi'u symud o'r ystafell bresennol i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol ond nid yw'n amgylchedd gwrth-glymu ac, felly, mae'n dibynnu ar asesu risg ac arsylwi ar y claf.<br><br>Mae larymau panig a ddelir yn y llaw wedi'u harchebu a bydd y Tîm Argyfwng yn eu cael yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 12 Mehefin 2023.<br><br>Mae'r Grŵp Gofal yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Ysbyty Tywysog Siarl fel rhan o'r prosesau cynllunio ystadau a chaiff y wybodaeth ddiweddaraf am drefniadau parhaol ar gyfer asesiadau heb eu trefnu/asesiadau argyfwng ei darparu ar gyfer asesiad AGIC ar 30 Medi 2023 | | *tymor canolig. Darperir y wybodaeth ddiweddaraf am drefniadau parhaol ar 30 Medi 2023* |
| **28** | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau cyfathrebu wedi'u rhoi ar waith yn gadarn, er mwyn gallu rhannu gwybodaeth hanfodol rhwng timau am y broses o gynllunio gofal a thriniaeth cleifion yn ystod eu cyfnod yn yr ysbyty ac ar ôl eu rhyddhau. | Fel mesur lliniaru ar gyfer y system cofnodion lluosog sydd ar waith o hyd ym mhob rhan o wasanaeth Iechyd Meddwl Bwrdd Iechyd CTM, mae'r Ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel wedi datblygu matrics ar gyfer mynediad timau clinigol/staff ("pwy sy'n cael mynediad i ba system at ba ddiben") ar gyfer pob system ym mhob rhan o'r gwasanaeth iechyd meddwl. Mae'r matrics hwn yn dweud wrth bob aelod o'r staff sut y gallant weld cynlluniau risg glinigol a chynlluniau rhyddhau cleifion, mae gwybodaeth yn ystod oriau gwaith a'r tu allan i oriau yn disgrifio mesurau lliniaru a phrosesau uwchgyfeirio. (Atodiad 3)<br><br>Yn unol â ffactorau sy'n llywio'r **ffrwd waith Mynediad ac Opsiynau Amgen yn lle Derbyn i'r Ysbyty** a'r **ffrwd Waith Rhyddhau'n Ddiogel**, mae ymarfer mapio prosesau wedi'i gynnal ac mae diagramau llif ynghylch trosglwyddo gwybodaeth cleifion rhwng y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol a'r Uned Cleifion Mewnol ar gyfer derbyn cleifion i'r ysbyty a'u rhyddhau wedi'u cwblhau a'u rhannu â phob rhan i'r Grŵp Gofal Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu.<br><br>Gan gydnabod y rhaglen waith sylweddol sydd ei hangen ym mhob rhan o Fwrdd Iechyd CTM er mwyn ei ddychwelyd i sefyllfa lle mae'n darparu Iechyd Meddwl o ansawdd cyson uchel, mae Rhaglen Gwella Ansawdd wedi'i rhoi ar waith er mwyn sicrhau ymgysylltiad gwasanaeth llawn a dull gweithredu cyson ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd.<br><br>Arweinir y Rhaglen Wella ar lefel Grŵp Gofal gan y Cyfarwyddwr Nyrsio, gyda chwe ffrwd waith wahanol yn yr is-raglen "Gofal Cleifion Mewnol o Ansawdd Uchel". Arweinir pob un ar lefel Uwch (Nyrs Arwain neu unigolyn cyfatebol), gyda'r nod cyffredinol o sicrhau y caiff pob cam gweithredu, newid a gwelliant eu rhoi ar waith yn gyson ym mhob rhan o Fwrdd Iechyd CTM.<br><br>Caiff y dull gweithredu cyson hwn ei atgyfnerthu ymhellach gan raglen ad-drefnu'r Grŵp Gofal Iechyd Meddwl sydd ar fin cael ei rhoi ar waith er mwyn darparu strwythurau Uwch-arweinwyr a Llywodraethu sy'n gyfrifol am ddarparu'r holl ofal i gleifion mewnol ym mhob rhan o Fwrdd Iechyd CTM. | Rheolwr y Grŵp Gwasanaeth Clinigol, Merthyr a Chynon (Arweinydd y Ffrwd Waith Cofnodion o Ansawdd Uchel | 31 Gorffennaf 2023 |
| **29** | Rhaid i'r bwrdd iechyd weithredu i sicrhau bod capasiti meddygol digonol ar gael ym mhob tîm iechyd meddwl. | Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy'r Grŵp Cynhyrchiant Meddygol.<br><br>Mae'r Cyfarwyddwr Meddygol y Grŵp Gofal yn arwain y gwaith o ddatblygu Pwyllgor Cynhyrchiant y Gweithlu Meddygol a monitro ei gynnydd er mwyn datblygu cynllun gweithlu meddygol ar draws Grwpiau Gofal er mwyn sicrhau y darperir gofal diogel o ansawdd uchel | Cyfarwyddwr Meddygol y Grŵp Gofal | 31 Gorffennaf 2023 |

<table>
<tr>
<td></td>
<td></td>
<td>Mae'r rhaglen waith hon yn canolbwyntio ar y canlynol:<br>• Recriwtio staff meddygol<br>• Cadw staff meddygol<br>• Llunio rolau newydd<br>• Monitro gweithgarwch cynllunio swyddi<br>• Rheoli rolau dros dro<br><br>Mae Grŵp Cynhyrchiant y Gweithlu Meddygol bellach wedi'i sefydlu ag aelodau o bob rhan o Fwrdd Iechyd CTM a chylch gorchwyl y cytunwyd arno ac yn dilyn y cyfarfod cyntaf ym mis Mai 2023 Ffrydiau Gwaith y cytunwyd arnynt ar gyfer y canlynol<br>• Recriwtio a chadw staff<br>• Gofal heb ei gynllunio<br>• Gweithlu amrywiol<br>a chyfraddau swyddi gwag y cytunwyd arnynt fel mesur Canlyniad Cychwynnol (atodir diweddariad ar y gweithlu meddygol yn Atodiad 5)<br><br>Yn dilyn cyfarfod Grŵp Cynhyrchiant y Gweithlu Meddygol ym mis Mehefin 2023, mae'r lefelau staffio a nodwyd fel a ganlyn<br><br>
<table>
<tr><td></td><td>WTE sylfaenol</td><td>WTE Ebr-23</td><td>WTE Mai-23</td></tr>
<tr><td>Meddygon Ymgynghorol</td><td>45.4(100%)</td><td>15(32%)</td><td>15 (32%)</td></tr>
<tr><td>Meddyg Arbenigol</td><td>26(100%)</td><td>11 (42%)</td><td>13 (50%)</td></tr>
</table>
<br>Er bod cryn nifer o swyddi gwag ym mhob rhan o'r gweithlu meddygol iechyd meddwl ar hyn o bryd, mae'r Grŵp Gofal yn llwyddo i gynnal carfan o Feddygon Locwm fel mesur lliniaru tra bydd y rhaglen recriwtio a chadw staff yn cael ei chynyddu.<br><br>Ar hyn o bryd (mis Mehefin 2023), mae Cyfarwyddwr Meddygol y Grŵp Gofal yn sicr bod meddygon locwm yn cyflenwi am bob swydd barhaol sy'n wag.<br><br>At hynny, mae Grŵp Cynhyrchiant y Gweithlu Meddygol wedi cytuno ar amserlenni ar gyfer cymryd camau yn y Ffrydiau gwaith recriwtio a chadw staff, gofal heb ei gynllunio a gweithlu amrywiol.<br>(diweddariad ar y gweithlu meddygol wedi'i atodi yn Atodiad 7)<br><br>Bydd y grŵp gofal yn monitro problemau sy'n ymwneud â staff a recriwtio a chadw staff ac effeithiolrwydd y dulliau gweithredu a nodir drwy gyfarfod Staffio Meddygol a'r Gweithlu a gynhelir bob mis.<br><br>Mae'r Grŵp Gwasanaeth Clinigol yn rhoi gwybod am broblemau sy'n ymwneud â'r gweithlu megis swyddi gwag a salwch yn y Cyfarfod Perfformiad Integredig misol.</td>
<td>Cyfarwyddwr Meddygol y Grŵp Gofal</td>
<td></td>
</tr>
<tr>
<td>30</td>
<td>Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut y gall weithio gyda staff therapïau:<br>a) i weithredu mewn perthynas â'r pryderon a godwyd;</td>
<td>Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy'r Ffrwd Waith Amgylchedd Diogel a Therapiwtig.</td>
<td>Rheolwr y Grŵp Gwasanaeth Clinigol, Rhondda a Thaf Elái (Arweinydd y Ffrwd</td>
<td>~~30 Mehefin 2023~~<br>Dyddiad diwygiedig 30 Medi 2023</td>
</tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | b) i'w galluogi i ymgymryd â'u rôl er mwyn diwallu anghenion cleifion yn ddigonol yn ystod y cyfnod pan fyddant yn gwella cyn cael eu rhyddhau. | Fel rhan o Raglen Gwella Ansawdd Bwrdd Iechyd CTM, cynhaliwyd digwyddiad ar 26 Ebrill er mwyn ystyried, mewn partneriaeth, yr opsiynau i ddarparu cyfleusterau therapi galwedigaethol gan gynnwys darparu'r canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:<br>• Datblygu'r tîm amlddisgyblaethol gyda mynediad at Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Therapyddion<br>• Mynediad at Ddigon o Gyfarpar Gweithgareddau Bywyd Beunyddiol<br>• Amserlenni gweithgareddau<br>• Mynediad ad-hoc wedi'i hwyluso at gyfleusterau hamdden<br>Bydd y ffrwd waith yn adolygu cyfleusterau presennol ac yn cwmpasu ardaloedd a chyfleusterau newydd posibl.<br>Tra bod y ffrwd waith yn datblygu ymhellach, mae'r tîm therapi galwedigaethol wedi cael trefniadau dros dro ar gyfer man therapi, sydd wedi'i alluogi i barhau i ddarparu'r gwasanaeth, gyda niferoedd is ar gyfer sesiynau grŵp. | Waith Amgylchedd Diogel a Therapiwtig)<br><br>Dirprwy Bennaeth Therapi Galwedigaethol / Rheolwr y Grŵp Gwasanaeth Clinigol, Rhondda a Thaf Elái | |
| **31** | Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried yr angen i gynnal adolygiad o gapasiti'r gwasanaethau therapi iechyd meddwl a'r galw amdanynt, ac a yw'r cyflenwad yn briodol o ran bodloni'r galw. | Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy Grŵp Gweithlu Medrus a Llawn Cymhelliant.<br><br>Yn y cyfarfod Llywodraethu Therapïau ar 18/05/2023, adolygodd y Bwrdd Iechyd argymhelliad 31 AGIC ac mae'n cytuno bod angen adolygiad amlbroffesiynol o'r galw a chapasiti ar gyfer y gweithlu therapi iechyd meddwl ac y bydd yn cael ei gynnal. Bydd yr adolygiad hwn yn cynnwys (ymhlith pethau eraill) amrywiaeth o Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd gan gynnwys Seicoleg, Therapi Celf, Ffisiotherapi, Dieteteg a Therapi Lleferydd ac Iaith. Mae'r adolygiad hwn o'r gweithlu therapïau yn mynd rhagddo ac mae'n ystyried y canlynol:<br>• Ffactorau llywio gweithlu strategol<br>• Canllawiau cenedlaethol<br>• Safonau ansawdd<br>• Y galw a chapasiti<br>Mae'r adolygiad o Therapi Galwedigaethol a'r ymarfer cynllunio swyddi dilynol wedi'u cwblhau ac mae Dirprwy Bennaeth Therapi Galwedigaethol yn nodi bod holl swyddi'r gweithlu Therapi Galwedigaethol wedi'u llenwi ac, felly, y gall ateb y galw am asesiad, triniaeth ac adolygiad a geir yn yr unedau oedolion sy'n gleifion mewnol.<br><br>Bydd gweddill yr adolygiad o'r galw a chapasiti yn cynnwys ymgysylltu â staff sy'n gweithio ym mhob un o ddisgyblaethau'r Therapïau, am fod profiad staff, ymgysylltu â staff ac adborth staff yn rhan hanfodol o ddull tosturiol o arwain adolygiadau o wasanaethau. Bydd yr adolygiad yn arwain at ddatblygu cynnig ar gyfer datblygu gweithlu Therapi Iechyd Meddwl i'w ystyried.<br><br>Mae llawer o ryngddibyniaethau rhwng yr adolygiad hwn a ffrydiau gwaith y Rhaglen wella ac, felly, y dyddiad cwblhau ar ei gyfer fydd 31 Mawrth 2024<br><br>Yn y cyfamser, mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi seicolegydd 8c i weithio fel arweinydd Clinigol y gwasanaeth oedolion sy'n gleifion mewnol, gyda chylch gwaith i ddatblygu'r sgiliau sydd ar gael yn y gweithlu cleifion mewnol, gan feithrin eu diogelwch a'u gwydnwch seicolegol; a rhoi her glinigol gadarn pan fo angen yn y tîm amlddisgyblaethol. | Nyrs Arwain, Pen-y-bont ar Ogwr (Arweinydd y Ffrwd Gwaith Gweithlu Medrus a Llawn Cymhelliant)<br><br>Dirprwy Bennaeth Therapi Galwedigaethol / Pennaeth Seicoleg | ~~31 Mai 2023~~ Dyddiad diwygiedig<br><br>31 Mawrth 2024 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | At hynny, mae'r "rowndiau bwrdd" boreol o gleifion mewnol a sefydlwyd yn ddiweddar yn cynnig cyfle i gynnal trafodaeth Amlddisgyblaethol ac maent yn gyfrwng i wneud ymholiadau clinigol ynglŷn ag adnoddau seicoleg pan na fyddant ar y safle<br><br>Gall y Timau Clinigol hefyd drafod fformiwleiddiadau risg ac anghenion clinigol cymhleth yn y cyfarfod Adolygu Achosion Cymhleth gan Gymheiriaid a gynhelir bob mis dan gadeiryddiaeth Pennaeth Seicoleg a Therapïau Seicolegol Iechyd Meddwl<br><br>Mae gan therapïau Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a therapïau seicolegol mewn gwasanaethau acíwt draddodiad hir o gynnig lleoliadau hyfforddiant i hyfforddeion seicoleg glinigol, hyfforddeion seicoleg gwnsela, hyfforddeion therapi celf a myfyrwyr seicoleg israddedig ar leoliadau hyd blwyddyn. Mae hyn wedi creu capasiti ychwanegol er mwyn sicrhau dull haenog o weithio gyda phobl ym maes gofal acíwt. Mae'r capasiti ychwanegol hwn wedi'i gwneud yn bosibl i ymyriadau seicoleg seiliedig ar brotocolau gael eu cynnig i fwy o gleifion.<br><br>Ar gyfer y tîm nyrsio ehangach, mae hyfforddiant ar Ofal Tosturiol ac Ymarfer wedi'i Lywio gan Seicoleg wedi cael ei drefnu a'i ddarparu i weithlu'r nyrsys iechyd meddwl cofrestredig a chynorthwywyr gofal iechyd, tra bod hyfforddiant pellach yn cael ei gynllunio a'i gomisiynu gyda darparwr yn y trydydd sector er mwyn darparu hyfforddiant atal hunanladdiad ASSIST i'r gweithlu erbyn 31 Hydref 2023 | | |
| **32** | Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried yr adborth gan staff y tynnwyd sylw ato yn yr adroddiad hwn ac ystyried cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddi ar gyfer staff cleifion mewnol a staff cymunedol, er mwyn nodi unrhyw fylchau hyfforddiant ac er mwyn helpu i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau priodol i ymgymryd â'u rôl yn effeithiol. | **Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy'r Ffrwd Waith Gweithlu Medrus a Llawn Cymhelliant.**<br><br>Gweler yr ymateb i argymhelliad 8.<br><br>Yn ogystal â'r sgiliau dysgu craidd ar gyfer staff iechyd meddwl ac wedi'i lywio gan ganlyniad y ffrydiau gwaith Gwella ehangach ar gyfer cleifion mewnol, caiff dadansoddiad llawn o anghenion hyfforddiant ei gwblhau er mwyn nodi cyfleoedd pellach ar gyfer meithrin sgiliau.<br><br>Safon y Bwrdd Iechyd ar gyfer yr holl hyfforddiant gorfodol yw o leiaf 85% ac ystyrir ei fod yn darged synhwyrol a phriodol, gyda throsiant staff rhagweladwy a heriau disgwyliedig na ellir eu hosgoi i hyfforddiant yn cael eu hystyried.<br><br>O ystyried maint y gwelliant sydd ei angen, yn ogystal â'r gofyniad hyfforddiant gorfodol a statudol sefydliadol, mae'r grŵp gofal Iechyd Meddwl yn canolbwyntio'n llwyr ar set graidd o sgiliau sy'n ymwneud ag Iechyd Meddwl gan gynnwys hyfforddiant WARNN, CTP a PMVA ac unrhyw hyfforddiant o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl/hyfforddiant statudol a nodir ar unwaith drwy ddysgu parhaus.<br><br>Mae'r Grŵp Gofal yn datblygu Tîm Gwella Gwasanaeth a bydd arweinydd gwasanaeth y tîm hwnnw yn casglu gwybodaeth o'r rhaglen Archwilio ehangach, y broses anghenion heb eu diwallu, dysgu ehangach ac adborth staff drwy Adolygiad Arfarnu a Datblygu Perfformiad er mwyn datblygu dadansoddiad o anghenion hyfforddiant. | Nyrs Arwain, Pen-y-bont ar Ogwr (Arweinydd y Ffrwd Gwaith Gweithlu Medrus a Llawn Cymhelliant) | 31 Awst 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Bydd y Grŵp Gofal yn canolbwyntio ar sicrhau gwell cydymffurfiaeth yn yr adolygiad sydd i'w gynnal erbyn 31 Awst 2023 ond, y tu hwnt i hyn, bydd yn ailystyried y dadansoddiad llawnach o anghenion hyfforddiant ymhen 12 mis (31 Mai 2024) gyda dealltwriaeth lawnach o'r gwersi a ddysgwyd o'r ffrydiau gwaith gwella ar gyfer cleifion mewnol. | | |
| 33 | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff ym mhob rhan o'r gwasanaethau iechyd meddwl yn ymwybodol o sut i gael gafael ar gymorth, a bod mynediad amserol i gymorth iechyd a llesiant galwedigaethol ar gael i'r staff pan fo'i angen. | Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy'r Ffrwd Waith Gweithlu Medrus a Llawn Cymhelliant.<br><br>**Mae profiad staff da yn hanfodol i ddatblygu'r grŵp gofal a chyflawni canlyniadau o ansawdd uchel i gleifion.**<br><br>**Bydd y Grŵp Gofal yn gwneud y canlynol:**<br>• Sefydlu rhaglen o Ymgyrchwyr Llesiant ym mhob tîm i weithio fel hyrwyddwyr yr agenda hon.<br>• Rhoi'r hyn a ddysgwyd o waith gwella Tŷ Llidiard a Gwasanaethau Mamolaeth mewn perthynas ag ymgysylltu â saff ar waith<br>• Gweithio gyda gwasanaethau pobl a'r adran Iechyd Galwedigaethol er mwyn nodi rhwystrau i ddefnyddio gwasanaethau a mesurau lliniaru posibl<br>• Datblygu mecanweithiau i ddangos gwerthfawrogiad a dathlu llwyddiant<br>• Ceisio deall achosion sylfaenol trallod ymhlith aelodau o staff ac ystyried atebion<br><br>Mae'r grŵp gofal yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau o geisio adborth a mewnbwn gan y grŵp staff. Mae rhaglen o adborth a gwaith i ddadansoddi arolwg rheolaidd o lesiant staff yn cael ei chydgysylltu gan Wasanaethau Pobl y Bwrdd Iechyd, y mae un o'u huwch-bartneriaid busnes yn gweithio ochr yn ochr â thîm arwain y grŵp gofal. Bydd triongli'r dulliau hyn yn galluogi'r grŵp gofal i werthuso effaith y mesurau a roddir ar waith yn fwy trylwyr. | Nyrs Arwain, Pen-y-bont ar Ogwr (Arweinydd y Ffrwd Gwaith Gweithlu Medrus a Llawn Cymhelliant)<br><br>Gwasanaeth Pobl, Partner Busnes | 31 Awst 2023 |
| **34** | Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwaith ymgysylltu digonol a chyson yn mynd rhagddo â phob aelod o'r staff mewn perthynas â'r trefniadau archwilio sydd ar waith ym mhob rhan o'i wasanaethau iechyd meddwl, ac y caiff y staff eu hysbysu o'r holl ganlyniadau archwilio ac unrhyw gamau sydd eu hangen er mwyn gwneud gwelliannau. | **Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy'r Grŵp Sicrwydd Wardiau**<br><br>Mae rhaglen o archwiliadau wedi'u digideiddio yn y tîm cymunedol a'r tîm cleifion mewnol yn mynd rhagddi.<br><br>Bydd y Grwpiau Gwasanaeth Clinigol yn defnyddio trefniadau Rhannu Gwybodaeth/gwersi a ddysgwyd yn y gwasanaethau e.e. ADRP, cyfarfodydd tîm, sesiynau briffio saith munud er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o waith sicrhau ansawdd<br><br>At hynny, bydd system archwilio electronig y Bwrdd Iechyd yn cynnig cyfle i sicrhau bod canlyniadau archwilio yn weladwy ar gyfer y staff, y cleifion ac ymwelwyr ar lefel ward. | Arweinydd Sicrwydd Wardiau | 30 Mehefin 2023 |
| **35** | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y broses archwilio ei hadolygu o fewn ei wasanaethau iechyd meddwl, ac y caiff cynllun rheoli camau archwilio cadarn a chynaliadwy ei roi ar waith (fel y bo'n berthnasol) er mwyn sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu monitro ac er mwyn | Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy'r Grŵp Ymchwil ac Archwilio.<br><br>Mae grŵp Ymchwil ac Archwilio newydd wedi'i ddatblygu y mae'r grŵp sicrwydd wardiau yn atebol iddo.<br><br>Gweler argymhelliad 34 am sylwadau ar sicrwydd wardiau. | Cadeirydd y Grŵp Ymchwil ac Archwilio | 31 Gorffennaf 2023 |

<table>
<tr>
<td></td>
<td>cael sicrwydd bod y gwelliannau a roddwyd ar waith yn cael eu cynnal.</td>
<td>Yn ogystal ag archwiliadau sicrwydd wardiau, bydd y Grŵp Ymchwil ac Archwilio yn datblygu cynllun archwilio ehangach ar gyfer y Grŵp Gofal.<br><br>Mae'r Grŵp Gofal yn datblygu tîm gwella gwasanaethau penodedig er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Gweithgarwch archwilio clinigol/Gwella Ansawdd sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. Gweithgarwch sy'n mynd rhagddo. Mae disgrifiadau swydd wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gan ddisgwyl i'r ymarfer recriwtio gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Gorffennaf 2023.<br><br>Bydd yr adnodd hwn yn gweithio mewn partneriaeth â'r timau clinigol er mwyn ymgorffori diwylliant o wella a dysgu a rennir. Bydd ymgysylltu â staff ar bob lefel yn un o amcanion allweddol y tîm hwn.</td>
<td>Nyrs Arwain Rhondda a Thaf Elái</td>
<td></td>
</tr>
<tr>
<td>36</td>
<td>Rhaid i'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC am gynnydd y gwaith parhaus i adolygu a diweddaru polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth iechyd meddwl, a phryd y caiff dogfennau sy'n berthnasol i'r bwrdd iechyd cyfan eu rhoi ar waith. Rhaid i hyn gynnwys sut y caiff y wybodaeth hon ei rhannu â phob aelod o'r staff ym mhob rhan o'r gwasanaethau iechyd meddwl.</td>
<td>Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy'r Grŵp Polisïau<br><br>Bydd gan y grŵp Adolygu Polisïau, sydd newydd ei sefydlu, gwmpas gweithredol i wneud y canlynol:<ul><li>Adolygu pob Polisi Iechyd Meddwl presennol a'i raddio'n Goch, yn Felyn neu'n Wyrdd er mwyn pennu sgôr blaenoriaeth</li><li>Datblygu cynllun polisïau sydd â llwybr ar gyfer mynd i'r afael â'r ôl-groniad</li><li>Datblygu'r cynllun er mwyn iddo gael ei gymeradwyo ar lefel y Grŵp Gofal</li><li>Cynnal cofrestr o bolisïau i'w hadolygu</li></ul><br>Ar ôl cytuno ar y cylch gorchwyl yng Nghyfarfod Ansawdd Diogelwch Risg a Phrofiad y Grŵp Gofal ym mis Ebrill 2023<br><br>Bydd polisïau iechyd meddwl yn dilyn y broses gymeradwyo sefydliadol y cytunwyd arni. Adolygwyd pob polisi sy'n ymwneud yn benodol ag iechyd meddwl erbyn 1 Mehefin 2023 ac o'r 49 o bolisïau sy'n ymwneud yn benodol ag iechyd meddwl<table><tr><td>Mae adolygiad yn mynd rhagddo</td><td>4</td></tr><tr><td>O fewn y dyddiad ac wedi'u cymeradwyo</td><td>13</td></tr><tr><td>Wedi dod i ben</td><td>32</td></tr></table>Gyda chytundeb y caiff y rhai sydd angen eu diweddaru eu cwblhau erbyn 1 Mehefin 2024.<br><br>Mae blaenoriaeth wedi'i rhoi i'r 32 o bolisïau sydd wedi dod i ben gan ystyried diogelwch cleifion, arferion gorau presennol ac effaith glinigol ac mae amserlen adolygu wedi'i datblygu gyda hyn mewn golwg. Bydd y grŵp Polisïau Iechyd Meddwl yn monitro'r amserlen adolygu hon ym mhob cyfarfod drwy eitem ar yr agenda.Yn y cyfamser, mae'r grŵp Polisïau Iechyd Meddwl wedi cyfarwyddo'r timau clinigol i weithio gyda'r fersiwn ddiweddaraf o bob polisi Clinigol.<br><br>Ar ôl iddo gael ei gwblhau, rhoddir gwybod i bob aelod o'r staff Nyrsio a'r staff Meddygol ym mhob gwasanaeth Iechyd Meddwl am bolisïau y cytunwyd arnynt (Argymhelliad 40).<br><br>Bydd yr holl bolisïau cymeradwy presennol yn fyw ar y dudalen Polisïau Iechyd Meddwl ar safle SharePoint ar fewnrwyd y staff.<br><br>.</td>
<td>Cadeirydd y Grŵp Polisïau<br><br>Cadeirydd y Grŵp Polisïau</td>
<td><s>30 Medi 2023</s> Dyddiad diwygiedig 1 Mehefin 2024.</td>
</tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **37** | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cofrestrau risgiau eu hadolygu, ac y rhoddir ystyriaeth i brosesau ar gyfer nodi a rheoli risgiau. Rhaid i hyn gynnwys cael sicrwydd bod aelodau allweddol o'r staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol i nodi risgiau a'u rheoli. | **Caiff cofrestrau risgiau eu goruchwylio dryw Grŵp Ansawdd Diogelwch Risg a Phrofiad y Grŵp Gofal a'r Grŵp Perfformiad, Cynllunio a Chyllid.**<br><br>Bydd atebolrwydd am reoli cofrestrau risgiau yn y Grŵp Gwasanaeth Clinigol drwy arweinwyr gweithredol.<br><br>Mae'r gofrestr risgiau gweithredol yn cynnwys risgiau â sgôr o fwy na 15. Mae'r gofrestr risgiau gweithredol wedi'i hadolygu ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd. Mae prinder staff cyfanredol a risgiau o ran hyfforddiant wedi'u cynnwys ar gyfer Bwrdd Iechyd CTM. Caiff risgiau penodol sy'n gysylltiedig ag Iechyd Meddwl, gan gynnwys cofnodion clinigol a risgiau amgylcheddol, eu cofnodi ar y gofrestr risgiau gweithredol.<br><br>Caiff cofrestrau risgiau â sgoriau o fwy na 12 eu monitro ar lefel y Grŵp Gofal drwy'r Grŵp Ansawdd Diogelwch Risg a Phrofiad - (gweler Atodiad 1 am drefniadau llywodraethu) a chaiff pob risg arall ei monitro drwy drefniadau perfformiad y Grŵp Gwasanaeth Clinigol.<br><br>Bydd Pennaeth Ansawdd a Diogelwch yn arwain cyfarfod llywodraethu gweithredol y Grŵp Gofal er mwyn monitro cydymffurfiaeth â Gweithio i Wella, cynlluniau gweithredu ac amserlenni adolygu risgiau.<br><br>Eitem ar agenda cyfarfodydd perfformiad ar lefel uwch-nyrs er mwyn annog uwchgyfeirio a diwylliant o berchen ar risgiau a mesurau lliniaru yn lleol.<br><br>Mae Nodi risgiau a Rheoli risgiau (drwy gofrestrau risgiau gweithredol) yn gymhwysedd craidd i bob rheolwr ac mae hyfforddiant yn y maes hwn yn cael ei ddarparu i bob aelod o staff sy'n monitro cofrestrau risgiau yn y fframwaith llywodraethu. | Mae'n cadeirio'r Grŵp Ansawdd Diogelwch Risg a Phrofiad y Grŵp Gofal a'r Grŵp Perfformiad, Cynllunio a Chyllid.<br><br>Rheolwyr Grwpiau Gwasanaeth Clinigol<br><br>Arweinydd y Ffrwd Gwaith Gweithlu Medrus a Llawn Cymhelliant | 30 Mehefin 2023<br><br>31 Awst 2023 |
| **38** | Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut y gall archwilio'r broses sydd ar waith ar gyfer digwyddiadau a nodir gan weithwyr cymdeithasol, a gaiff eu dogfennu yn Datix, ac y caiff adborth, y gwersi a ddysgwyd a chamau gweithredu eu rhannu â nhw fel y bo'n berthnasol. | **Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy'r Grŵp Ansawdd, Diogelwch, Risg a Phrofiad.**<br><br>Bydd Arweinydd Llywodraeth Iechyd Meddwl yn sefydlu gweithgor gyda'r Nyrs Arwain a phenaethiaid gwasanaeth Awdurdodau Lleol er mwyn datblygu mecanwaith amlasiantaethol ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau | Cyfarwyddwr Nyrsio<br><br>Pennaeth Ansawdd a Diogelwch | 30 Mehefin 2023 |
| **39** | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod unrhyw aelodau o staff sy'n rhoi gwybod am ddigwyddiadau drwy Datix yn cael adborth, gan gynnwys unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd ac unrhyw wersi a nodwyd. | **Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy'r Grŵp Ansawdd, Diogelwch, Risg a Phrofiad.**<br><br>Ar ôl i swyddogaeth newydd 'Datixweb' gael ei chyflwyno, ni ellir cau adolygiadau datix heb roi adborth i'r darparwr.<br><br>Caiff y broses o gau digwyddiadau ei monitro drwy'r Grŵp Ansawdd, Diogelwch, Risg a Phrofiad. | Cyfarwyddwr Nyrsio<br><br>Pennaeth Ansawdd a Diogelwch | 30 Mehefin 2023 |
| **40** | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod proses ar waith i rannu'r gwersi a ddysgwyd neu'r camau gweithredu a nodwyd yn dilyn digwyddiadau drwy eu rhaeadru i bob tîm sy'n rhan o'i wasanaethau iechyd meddwl. | **Caiff yr argymhelliad hwn ei oruchwylio drwy'r Grŵp Ansawdd, Diogelwch, Risg a Phrofiad.**<br><br>Bydd y Grŵp Gofal Iechyd Meddwl yn datblygu fframwaith Cyfathrebu a Dysgu sy'n cynnwys: | Cyfarwyddwr Nyrsio | 30 Mehefin 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Polisi gweithredol Safonol ar gyfer rhaeadru/uwchgyfeirio gwybodaeth o Ward/Bwrdd/Ward (Atodiad 6)<br>• Cyfarfodydd **Ansawdd, Diogelwch, Risg a Phrofiad** a gynhelir bob deufis lle y rhennir yr hyn a ddysgwyd rhwng uwch-dimau'r Grŵp Gwasanaeth Clinigol.<br>• Cyfarfodydd **Ansawdd, Diogelwch, Risg a Phrofiad** y Grŵp Gwasanaeth Clinigol a gynhelir bob mis er mwyn i ddysgu ehangach gan ei uwchgyfeirio a'i ledaenu gan Uwch-nyrsys a'r tîm amlddisgyblaethol. Cyfarfodydd misol "Arweinwyr Clinigol" ar gyfer uwchgyfeirio a lledaenu dysgu ehangach i reolwyr y wardiau ac arweinwyr Tîm.<br>• Cyfarfodydd tîm/ward misol ar gyfer uwchgyfeirio a lledaenu dysgu ehangach a rhannu gwybodaeth am weithgarwch gwella ac archwilio Ansawdd lleol. Bydd agenda gyffredinol i'r cyfarfod hwn gyda phwyntiau gweithredu yn cael eu nodi.<br>• Defnyddir sesiynau briffio 7 munud /LASER fel dull o rannu gwersi a ddysgwyd mewn cyfarfodydd tîm/ward; sesiynau briffio ar ddiogelwch ar wardiau; ac at gyfrifon e-bost aelodau unigol o staff.<br>• Bydd gan bob ardal glinigol (cleifion mewnol a chymunedol) fwrdd hyfforddiant/man gwybodaeth dynodedig ar gyfer rhannu'r hyn a ddysgwyd/archwiliadau lleol/adnoddau addysgol<br>• Sesiynau dysgu chwarterol i ôl-raddedigion er mwyn galluogi dysgu amlddisgyblaethol a rennir<br><br>Bydd Pennaeth Ansawdd a Diogelwch, mewn partneriaeth ag arweinwyr gwasanaeth, yn cydgysylltu'r gwaith o rannu'r hyn a ddysgwyd a sicrhau dull gweithredu ac adnoddau a chynnwys unffurf. | Pennaeth Ansawdd a Diogelwch | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Teitl swydd:** **Cyfarwyddwr Nyrsio – Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl**

**Dyddiad:** **14 Gorffennaf 2023**